

ISSN 2053-5171
Rhifyn 12
Gwanwyn 2018

Herio Materion Crefyddol

Jeff Astley
ar Rudolf Otto ar Brofiad
Nwmenaid

Leslie J. Francis
ar A oedd Jung yn gywir:
A yw crefydd yn dda ar
gyfer lles seicolegol pobl
gyffredin?

Abdullah Sahin
ar Islam a Democratiaeth:
A ydyn nhw'n cydweddu
neu'n anghymarus?
(Rhan 1)

Samuel Tranter
ar Iwilitariaeth a Moeseg
Ddiwinyddol

Herio Materion Crefyddol

Cefnogi Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch a thu hwnt

Rhifyn 12 Gwanwyn 2018

Cynnwys

Rudolf Otto ar Brofiad Nwmenaidd Jeff Astley	2
A Oedd Jung yn Gywir: A yw Crefydd yn dda ar Gyfer lles Seicolegol Pobl Gyffredin? Leslie J. Francis	9
Islam a Democratiaeth: A Ydyn Nhw'n Cydweddu Neu'n Anghymharus? Rhan 1: Cefndir a Materion Abdullah Sahin	17
Iwtilitariaeth a Moeseg Ddiwinyddol Samuel Tranter	26

Golygydd

Professor Jeff Astley (Prifysgol Warwick)

Golygydd Rheolaethol

Dr Tania ap Siôn (Prifysgol Warwick, Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn)

Ymgynhorwyr Golygyddol

Yr Athro Leslie J. Francis (Prifysgol Warwick)

Dr Ian Jones (St Peter's Saltley Trust)

Libby Jones (Canolfan Sant Silyn, Wrecsam)

Professor William K. Kay (Prifysgol Caer)

Yr Athro David Lankshear (Prifysgol Warwick)

Phil Lord (Arweinydd System, GwE)

Yr Athro Peter Neil (Prifysgol Bishop Grosseteste)

Yr Athro Stephen Parker (Prifysgol Worcester)

Y Gwir Barchedig Ddr David Walker (Prifysgol Warwick)

Dyluniwyd gan Phillip Vernon

Cyfieithiad gan Nant Roberts

Herio Materion Crefyddol

Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn

Llys Onnen

Abergwyngregyn

Gwynedd

LL33 0LD

Ffôn: 01248 680131

E-bost: t.ap-sion@warwick.ac.uk

Gwefan: www.st-marys-centre.org.uk

St Peter's Saltley Trust

Grays Court

3 Nursery Raod

Edgbaston

Birmingham B15 3JX

Telephone 0121 427 6800

E- mail: director@saltleytrust.org.uk

Website: www.saltleytrust.org.uk

Noddir y cyfieithiad gan Mudiad Addysg Grefyddol Cymru (MAGC).

Rudolf Otto ar Brofiad Nwmenaidd

Jeff Astley

Mae'r erthygl yn disgrifio dadansoddiad Rudolf Otto o brofiad crefyddol ac yn rhestru rhai beirniadaethau ohono.

Cyswllt manyleb:

WJEC/CBAC/EDUQAS Uned 2: Adran B - Cyflwyno Athroniaeth Crefydd, Thema 4: Profiad Crefyddol (rhan 1), B: Profiad Cyfriniol, Rudolf Otto.

EDEXCEL Papur 1: Athroniaeth Crefydd, Testun 2.1 Natur Profiad Crefyddol.

OCR Athroniaeth Crefydd, 3. Duw a'r Byd, Testun: Profiad Crefyddol.

AQA 1 Athroniaeth Crefydd a Moeseg, Athroniaeth Crefydd, Profiad Crefyddol.

Cyflwyniad

Diwinydd Lutheraidd Almaenig dylanwadol iawn oedd Rudolf Otto (1869-1937), yn wleidydd ac yn ysgolor crefydd, a fu'n addysgu'n bennaf ym Mhrifysgol Marburg. Dylanwadwyd ar safbwyntiau Otto gan Friedrich Schleiermacher (1768-1834), a nododd ysbryd hanfodol crefydd â duwioldeb - *piety* (a ddeallir fel ymwybyddiaeth grefyddol), yn hytrach nag o fewn ei dimensiynau deallusol a moesol a bwysleisiwyd yn ystod Oes y Goleuo (Schleiermacher, 1958, ail anerchiad; Otto, 1931, pen. VIII). Mae iaith Schleiermacher yn aml yn awgrymu bod ei gonsern yn ymwneud yn unig â theimladau goddrychol pobl, o'r hyn y byddai'n rhaid i Dduw gael ei adael allan,

ond gwrthododd Otto y syniad hwn o blaid rhywbeth sy'n cael ei deimlo'n uniongyrchol fel rhywbeth gwrthrychol a thu allan i'r hunan - [*something that is directly*] '*felt as objective and outside the self*'. Ceisiodd Otto, felly, ddisodli ymwybyddiaeth o 'greadrwydd' sy'n awgrymu creawdwr, oherwydd yr ymwybyddiaeth o greaduriaeth - creaturehood: '*the feeling of personal nothingness and abasement before the awe-inspiring object directly experienced and its 'overpowering might'*' (Otto, 1923, tt. 11, 18, 21). Yn wir, roedd bwriad Schleiermacher mewn gwirionedd yn debyg: wrth awgrymu ymwybyddiaeth uniongyrchol o'r presenoldeb dwyfol, *amgyffrediad* personol gwrthrychol neu

Rudolf Otto ar Brofiad Nwmenaidd

ganfyddiad emosiynol o'r ysbrydol, a ddisgrifiwyd ganddo fel 'teimlo ar unwaith', 'synnwyr a blas ar gyfer yr anfeidrol', 'greddf. . . yn gysylltiedig â theimlad', 'teimlad o ddibyniaeth absoliwt' neu 'ymwybyddiaeth o Dduw' - *'immediate feeling', 'a sense and taste for the infinite', 'intuition . . . linked to a feeling', 'a feeling of absolute dependence' or 'God-consciousness'* (Schleiermacher, 1958, tt. 36, 39, 280-281; 1928, tt. 17-18). Dilynodd Otto Schleiermacher wrth drin credoau crefyddol fel adroddiadau a mynegiannau eilaidd, deilliadol o brofiadau ysbrydol (Schleiermacher, 1958, t. 87; 1928, t. 76).

Roedd Otto'n deall profiad crefyddol yn nhermau ymateb a oedd wrth wraidd pob sensitifrwydd ac addoliad crefyddol, ac a oedd yn allu naturiol i fodau dynol. Fel (yr hyn a elwir erbyn hyn yn) *'perennialist'*, nododd 'graidd cyffredin' o brofiad crefyddol cynhenid sydd, yn y bôn, yn union yr un fath ar draws crefyddau a diwylliannau, er ei fod o bosib yn cael ei fynegi mewn ffyrdd amrywiol iawn (cf. Otto, 1932).

Ffenomenoleg Otto o brofiad crefyddol

Mae llawer yn ystyried profiadau crefyddol fel profiadau unigolyddol a dwys iawn: rhywbeth sydd ddim ond yn digwydd iddyn nhw eu hunain, ac na all eraill ei werthfawrogi mewn gwirionedd. Fe wnaeth Rudolf Otto gydnabod hyn trwy ddechrau ei adroddiad gyda'r cafeat, *[that] 'whoever knows no such moments [of deeply-felt religious experience] . . . is requested to read no further'*.

Fe fathodd yr ansoddair 'nwmenaidd - *numinous*' (sy'n deillio o'r gair Lladin *numen*, 'duwdod' neu 'grym/ewylllys /presenoldeb dwyfol' - *'divinity'* or *'divine*

power/will/presence'), ac fe ddefnyddiodd y term hwn i ddisgrifio categori o werth a chyflwr meddyliol a oedd yn 'berffaith *sui generis* ac yn anrhagweladwy i unrhyw un arall' - *'perfectly sui generis and irreducible to any other'*. Dyma, dadleuodd, yw nod nodweddiadol synnwyr sylfaenol, gwreiddiol y syniad o'r 'sanctaidd'. Heddiw, mae'n ymddangos mai ystyr 'sanctaidd' yw 'hollol dda'; ond dadleuodd Otto fod i'r gair ystyr gynharach, mwy nodedig a hanfodol o arwahanrwydd a dirgelwch, a dim ond yn ddiweddarach (ond yn hollol gywir) y bu iddo gaffael yr arwyddocâd moesol hwn. Yn achos Otto, mae'r sanctaidd yn hanfodol yn dynodi 'Rhywbeth anhysbys' sydd â'i wrthrych (a ddynodwyd ganddo hefyd fel 'nwmenaidd'), yr aruthrol ond swynol, tra-rhagorol, anhraethadwy 'Cyfan gwbl Arall'. Labelodd Otto hwn, ag ymadrodd Lladin, *y mysterium tremendum et fascinans* (y Dirgelwch ofnadwy a hudolus - *the dreadful and alluring Mystery*). Canlyniad y 'Sancteiddrwydd ei hun' hwn, a ystyrir fel mawredd trechaf a grym taer, yw 'rhyfeddod penagored, syndod sy'n ein taro'n fud, syfrdan absoliwt - *'blank wonder, an astonishment that strikes us dumb, amazement absolute'* (Otto, 1923, tt. 6-8, 11, 26, 59; gweler penodau IV-VI yn gyffredinol).

Er bod Otto'n ystyried y profiad nwmenaidd fel mewn egwyddor yn gyffredinol, roedd yn cydnabod bod gwahanol lefelau i'r profiad hwn, ac analogeddau seciwlar yn ogystal – gan gynnwys yr 'annaeorol' a'r 'syfrdanol', a'r arswyd a'r 'ysgytiad' a ysgogir gan straeon am ysbrydion (neu aliwns?).

It has its crude, barbaric antecedents and early manifestations, and again it may be developed into something

Rudolf Otto ar Brofiad Nwmenaidd

beautiful and pure and glorious. It may become the hushed, trembling, and speechless humility of the creature in the presence of – whom or what? In the presence of that which is a Mystery inexpressible and above all creatures. (Otto, 1923, t. 13)

Mae dirgelwch yn agwedd a deimlir yn ddwfn ar lawer profiad a defosiwn crefyddol. Yn ôl Otto, mae profiad nwmenaidd yn ei hanfod yn unigryw ac yn amhosibl ei ddadansoddi, ac mae'n darparu nod sylfaenol o'r presenoldeb dwyfol. Er bod y profiad ei hun yn anrhesymol (hynny yw, nad yw'n rhesymol - nid yn seiliedig ar reswm; yn hytrach nag afresymol – yn mynd yn erbyn y rheswm), ac nid yw iaith a thraddodiad wedi'i gyfyngu, mae'n cael ei ymadroddi a'i fynegi ('*sgemateiddio*') mewn gwahanol ffyrdd trwy iaith a chredoau crefyddol. Felly, mynegir yr elfen o *tremendum* yn nhermau parchedig ofn trech ac arswyd dychrynlyd (fel mewn cyfeiriadau Beiblaidd at 'ddigofaint Duw' – [*the*] '*wrath of God*': tt. 18-19, 23-24). Mae *mysterium* yn nodi'r hyn sy'n 'gwbl arall' ac felly y tu hwnt i'n hamgyffred a'n dealltwriaeth ni - '*beyond our apprehension and comprehension*'; yn yr ystyr cryfaf un, mae'n rhywbeth sydd heb le yn ein cynllun realiti ond sy'n perthyn i un cwbl wahanol – [*it is*] '*something which has no place in our scheme of reality but belongs to an absolutely different one*' (tt. 28-29). Mae'r *mysterium tremendum* felly yn peri cyfeirio at 'drosgynoldeb' (arallrwydd) Duw.

Mae'r elfen of gyfaredd (*fascinans*), fodd bynnag, yn cyfuno â'r teimlad o barchedig ofn mewn 'cytgord rhyfedd o wrthgyferbyniadau' – [*combines with the feeling of awfulness in*] '*a strange harmony of contrasts*'. Gyda'i gilydd,

maen nhw'n ffurfio cymeriad deuol yr ymwybyddiaeth nwmenaidd - [*the*] '*dual character of the numinous consciousness*'. Felly, mae Otto yn ysgrifennu am y person sy'n cael profiad nwmenaidd fel a ganlyn:

The 'mystery' is for him not merely something to be wondered at but something that entrances him; and beside that in it which bewilders and confounds, he feels a something that captivates and transports him with a strange ravishment, rising often enough to the pitch of dizzy intoxication. (Otto, 1923, t. 31)

Gellir rhesymoli'r elfen anhrefnol/anrhesymol hon o atyniad a'i mynegi mewn cyfatebion crefyddol fel 'daioni', 'cariad', 'trugaredd', 'tosturi' neu 'gysur' Duw – nodweddiad moesol traddodiadol y Duw sanctaidd - '*goodness*', '*love*', '*mercy*', '*pity*' or '*comfort*' – *the traditional moral attributes of the holy God* (tt. 31, 33-34, 145).

Gwerthusiad beirniadol

Mae cyfrif ffenomenolegol Otto o natur profiad crefyddol wedi ei ganmol yn eang; ond mae rhai o'i agweddau wedi cael eu herio, felly hefyd nifer o'i hawliadau cysylltiedig.

(1) Roedd Otto'n ystyried cyfriniaeth fel ffurf eithafol o brofiad nwmenaidd: un sy'n cynnwys canfyddiad, mewn graddau gwahanol o gyflawnrwydd, o'r hunan personol â'r Realiti trosgynnol, a lle mae teimlad crefyddol yn rhagori ar ei gynnwys rhesymegol, hynny yw, . . . mae ei elfennau cudd, anrhesymol, nwmenaidd yn goruchafu ac yn pennu'r bywyd emosiynol [*one that features an*] '*identification, in different degrees of completeness, of the personal self with the transcendent Reality*', and in which

Rudolf Otto ar Brofiad Nwmenaidd

'religious feeling surpasses its rational content, that is, . . . its hidden, non-rational, numinous elements predominate and determine the emotional life' (Otto, 1923, t. 22; 1932, t. 141). Mae'r mwyafrif o ysgolheigion, fodd bynnag, yn gwahaniaethu'r ddau fath hyn. Yn eu hachos hwy, mae'r nwmenaidd yn disgrifio ansawdd allanol a tharanllyd *canfyddiad* allanol dwys, (proffwydol, weithiau) gyda'r dwyfol, neu hyd yn oed â natur, mae hyn yn cael ei wrthgyferbynnu â'r 'gweledigaethau mewnol' tawel o *undod* cyfriniol sy'n deillio o arferion myfyriol (e.e. Ninian Smart, sy'n nodi'r ddau fel dau ben gwahanol un sbectwm o brofiad crefyddol). Yng nghyflwr unedol y profiad cyfriniol, dywedir bod pellteroedd yn cael eu difodi a gwahaniaethau'n cael eu goresgyn; tra bod ymdeimlad o arallrwydd absoliwt, neu bellter, neu wahaniaeth yn ymddangos yn rhan o union ffabrig profiad nwmenaidd - *'distances are annihilated and distinctions overcome'*; [whereas the] *'sense of absolute otherness, or distance, or difference'* [seems to be part of the] *'very fabric of numinous experience'* (Wainwright, 1981, t. 5). Fodd bynnag, mae eraill yn gwrthod y gwahaniad hwn o'r nwmenaidd oddi wrth brofiad cyfriniol (e.e. Ware, 2007).

(2) Yn ôl Otto, mae profiad crefyddol yn ffenomen gymysg. Ynddo, yr ydym ni, ar yr un pryd, yn ymddiddori ac eto hefyd yn bryderus, yn ofnus hyd yn oed. Ond a yw ysgytiad yr arallrwydd yn rhan annatod o brofiad ysbrydol dilys? Byddai llawer o gredinwyr crefyddol yn honni bod profiad hollol anfeirniadol o oleuni a chynhesrwydd cariad a maddeuant (gras) yn brofiad mwy dibynadwy o'r dwyfol na'r profiad oer, tywyll o ddychryn sanctaidd. Mae 'ofn yr ARGLWYDD' sef dechrau gwybodaeth doethineb yn Llyfr y

Diarhebion (1:7; 9:10) yn awgrymu nid bod yn ofidus ac yn ofnus, ond yn hytrach ymroddiad diysgog i Dduw - *'fear of the LORD' that is the beginning of the knowledge of wisdom in Proverbs (1:7; 9:10) 'implies not anxiety and dread but rather unwavering devotion to . . . God'* (Clements, 2003, t. 438; ond cf. Otto, 1923, t. 14). Mewn ymateb, fodd bynnag, fe fyddai'n bosib i ni ddweud bod Otto yn dadlau am ddatblygiad ymwybyddiaeth grefyddol o gam cynharach a oedd yn pwysleisio'r elfen o *tremendum*, i gam yn nes ymlaen pan ddaeth yr elfen o *fascinans* yn fwy canolog (Otto, 1923, t. 32).

(3) Mae breintio profiad a dirgelwch dros athrawiaeth a chynnwys datguddiad yn aml yn cael ei feirniadu am osgoi materion o wirionedd a rhesymoldeb, ac am ganolbwyntio ar brofiad dynol yn hytrach na datguddiad dwyfol. (Eto i gyd, mae'n debyg y caiff datguddiad hefyd ei dderbyn i ddechrau mewn rhyw fath o brofiad dynol.)

(4) Mae apêl Otto at yr hyn sy'n *sui generis* yn trin profiad crefyddol yn ogystal â, i wrthrych yn hollol wahanol i bopeth arall (cyfan gwbl arall - *'wholly other'*).¹ Mae hyn yn tueddu i ddiogelu crefydd a theimlad a phrofiad crefyddol rhag cael eu cymharu â mathau eraill o emosiwn, profiad, gwybodaeth a gweithgarwch dynol, ac oddi wrth ymchwiliad gwyddonol (gan gynnwys gwyddonol cymdeithasol).

(5) Mae beirniaid ffeministaidd yn dadlau bod cyfrif Otto o brofiad nwmenaidd yn cael ei gyfryngu a'i gyfansoddi gan safbwynt gwrywaidd byd-olwg Otto ei hun - *'mediated and constituted by the androcentrism of*

¹Mae profiad nwmenaidd yn 'anhraethadwy' yn achos Otto am ei fod yn brofiad ar unwaith ac am ei fod yn brofiad o'r hyn sy'n rhywbeth cyfan gwbl arall. Fodd bynnag, dylem nodi cyfeiriadau Otto at gyfatebiaethau, sy'n rhoi rhywfaint o gyfrif o natur y profiad a'i wrthrych.

Rudolf Otto ar Brofiad Nwmenaidd

Otto's own world-view (Raphael, 1994, t. 513). Dywedir bod ei bwyslais ar themâu gwahanu, trosgynoldeb a sancteiddrwydd ysbryd - mewn cyferbyniad ag agosatrwydd, mewnfodaeth a (chabled?) y materol a phethau'r byd hwn - yn annog difrio profiad ysbrydol menywod. Mae gostyngeddwrwydd a 'theimlad creadur' yn broblem neilltuol i ferched mewn cymdeithas sy'n cael ei dominyddu gan ddynion.

(6) Mae llawer o athronwyr yn gwrthod y ffordd mae Otto'n gosod categori

meddyliol 'Kantian' sy'n *priori* (nad yw'n deillio o brofiad synnwyr) fel ein cynneddf ynghylch dirnad y sanctaidd (e.e. Paton, 1955, tt. 129-145). Mae ei broses o sgemateiddio² hefyd wedi cael ei beirniadu am adael ystyr y nodweddion dwyfol yn ansicr i raddau helaeth.

² Yn y broses hon, mae profiadau nwmenaidd yn cael eu 'darlunio' - ond heb eu cyfleu'n gynhwysfawr neu'n 'gysyniadol' - gan 'ideogramau' ysgogol a symbolaidd sydd wedi'u gwreiddio mewn profiadau dynol cyffelyb, fel yr 'ofn' neu'r 'cariad' sydd gennym tuag at bobl eraill (Otto, 1923, tt. 19-20, 24, 26, 34-35, 48).

Geirfa

Androcentrism yw ffocws ar y gwryw.

Mewnfodaeth - (Immanence): y syniad o'r dwyfol fel ymbreswiliad, yn gweithredu o fewn ac yn treiddio i natur.

Gwybyddiaeth (Intuition): gwybodaeth uniongyrchol o endid neu wirionedd, heb gynnwys unrhyw brosesau rhesymu ymwybodol.

Ffenomenoleg - (Phenomenology): yn gyffredinol, sut mae profiad yn ymddangos l'r derbynnydd - sut mae pethau'n ymddangos iddi hi neu ef, pa un ai ydyn nhw felly neu

beidio. (Ar ddealltwriaeth fwy technegol o ffenomenoleg, gosodir pwyslais mawr ar bwysigrwydd 'cromfachu' neu 'neilltuo' rhagdybiaethau ynghylch gwirionedd neu werth profiad.)

Sui generis: yn llythrennol, 'o'i fath ei hun', yn unigryw.

Trosgynnol (Transcendent): yr hyn sy'n mynd y tu hwnt i gyfyngiadau ein bodolaeth, ein profiad a'n hiaith.

Cysylltau

<https://www.britannica.com/biography/Rudolf-Otto> (Encyclopaedia Britannica)

https://en.wikipedia.org/wiki/Rudolf_Otto (Wikipedia)

Pwyntiau trafod

1. Cynigiwyd y darnau canlynol o'r Beibl (rhai gan Otto ei hun) fel enghreifftiau da o brofiad nwmenaidd. Pa nodweddion sy'n cyfiawnhau eu dewis?
Exodus 3:1-6; 4:24; Deuteronomium 5:26; Eiseia 6:1-8; Job 38:1-42:6; Marc 9:2-8; 10:32; 16:1-8; Luc 24:36-37; Hebreaid 10:31.
2. Ydych chi'n gallu meddwl am ddarnau eraill mewn (unrhyw) ysgrythurau sanctaidd neu emynau neu ddefodau crefyddol, neu farddoniaeth neu ryddiaith grefyddol neu seciwlar arall, a allai arwain at rywbeth fel profiad nwmenaidd neu fynegi hynny? Beth am enghreifftiau o gerddoriaeth, drama, dawn, ffilm, celf neu bensaerniaeth; neu eich profiadau chi o bobl neu natur?
3. Sut y gellid amddiffyn Otto yn erbyn beirniadaethau am ei ffordd o feddwl a amlinellir uchod?
4. Sut y byddai'n bosib i gredadun ddatrys y tensiynau o fewn 'cytgord rhyfedd gwrthgyferbyniadau' y profiad nwmenaidd?

Cyfeiriadaeth

- Clements, R.E. (2003). Proverbs. In *Eerdmans commentary on the Bible* (pp. 437-466). Eds. J.D.G. Dunn & J.W. Rogerson, Grand Rapids, Michigan: Eerdmans.
- Otto, R. (1923 [1917]). *The idea of the holy: An inquiry into the non-rational factor in the idea of the divine and its relation to the rational*. London: Oxford University Press. (Text available online at <https://archive.org/details/theideaoftheholy00ottouoft>)
- Otto, R. (1931). *Religious essays: A supplement to 'The idea of the holy'*. London: Oxford University Press.
- Otto, R. (1932 [1926]). *Mysticism East and West: A comparative analysis of the nature of mysticism*. New York: Macmillan.
- Paton, H.J. (1955). *The modern predicament: A study in the philosophy of religion*. London: Allen & Unwin.
- Raphael, M. (1994). Feminism, constructivism, and numinous experience. *Religious Studies*, 30, 511–526.
- Schleiermacher, F. (1928 [1830]). *The Christian faith*. Edinburgh: T. & T. Clark.
- Schleiermacher, F. (1958 [1799]). *On religion: Speeches to its cultured despisers*. New York: Harper & Row.
- Wainwright, W.J. (1981). *Mysticism: A study of its nature, cognitive value and moral implications*. Brighton: Harvester.
- Ware, O. (2007). Rudolph Otto's idea of the holy: A reappraisal. *Heythrop Journal*, 48, 48-60.

Y Parchedig Athro Jeff Astley yw Athro Alister Hardy y Profiad Crefyddol ac Ysbrydol yn Uned Ymchwil Addysg a Chrefyddau Prifysgol Warwick, ac mae'n Athro er anrhydedd yn Adran Diwinyddiaeth a Chrefydd Prifysgol Durham. Ef yw golygydd *Studying Spiritual and Religious Experience: An Online Reader of Empirical and Theoretical Perspective* (<https://warwick.ac.uk/fac/soc/ces/research/wreru/research/current/religiousandspiritualexperience/>), ac ar hyn o bryd mae'n paratoui gwrslyfr ar gyfer israddedigion, *SCM Studyguide on Religious and Spiritual Experience*.

A oedd Jung yn Gywir: A yw Crefydd yn Dda ar gyfer Lles Seicolegol Pobl Gyffredin?

Leslie J. Francis

Mae'r erthygl yn tynnu ar wyddor empirig seicoleg crefydd er mwyn profi'r gosodiad bod crefydd yn dda i les seicolegol pobl gyffredin. I wneud hynny, mae'r erthygl yn trafod y problemau cymhleth o gysyniadoli a gweithredoli crefydd a lles cyn canolbwyntio ar werthuso'r dystiolaeth.

Cyswllt manyleb:

WJEC/CBAC/EDUQAS Uned 5: Athroniaeth Crefydd, Thema 1: Heriau i Gred Grefyddol (rhan 2), B: Carl Jung: crefydd yn angenrheidiol ar gyfer twf personol; crefydd yn ffynhonnell o gysur, a hyrwyddo meddylfryd personol a chymdeithasol cadarnhaol yn deillio o gred grefyddol; effeithiolrwydd dulliau empirig fel beirniadaethau ar gysyniadau Jungaidd ar grefydd.

Cyflwyniad

Ar wynebwerth, roedd Sigmund Freud a Carl Jung yn ymddangos fel pe baen nhw'n dal safbwyntiau gwrthwynebol ynghylch y cyfraniad y mae crefydd yn ei wneud i ffyniant dynol: ymddangosai fel petai Freud yn gweld crefydd fel grym er drygioni, tra roedd Jung yn tueddu i weld crefydd fel grym er daioni mewn datblygiad dynol. Cymerwyd barn wrthwynebol o'r fath yn her gan wyddor empirig seicoleg crefydd er mwyn profi'r dystiolaeth a allai gefnogi neu a allai ddadlau'n groes i farn o'r fath.

Y man cychwyn ar gyfer gwyddor empirig seicoleg crefydd yw bob amser

gyda'r ddau fater o sut mae crefydd yn cael ei chysyniadoli a'i mesur, ac yna gyda'r ddau fater o sut mae cydberthnasau crefydd yn cael eu cysyniadoli a'u mesur. Mewn geiriau eraill, os ydym yn ymwneud ag archwilio'r cysylltiad rhwng crefydd a lles seicolegol, mae angen i ni ddechrau trwy edrych ar yr hyn a olygwn yw crefydd a'r hyn a olygwn yw lles seicolegol. Mae'r papur hwn yn dilyn y ddau gwestiwn hyn gyda'r bwriad penodol o brofi'r safbwynt sy'n dadlau bod crefydd yn dda ar gyfer lles seicolegol.

A oedd Jung yn gywir?

Cysyniadoli a mesur crefydd

O fewn gwyddor empirig seicoleg crefydd, cydnabyddir crefydd fel lluniad cymhleth ac amlweddog. Cyn gynted ag y byddwch yn dechrau archwilio cydberthnasau crefydd (er enghraifft o ran lles seicolegol) mae'n dod yn amlwg y gall atebion gwahanol ymddangos wrth ganolbwyntio ar wahanol agweddau ar grefydd. Y ddwy agwedd yr ymdrinnir â nhw amlaf yw ymgysylltiad ac ymarfer, ac mae problemau cysyniadol yn gysylltiedig â'r ddwy agwedd hon.

Ymgysylltiad crefyddol yw'r agwedd ar grefydd a ddefnyddir yn gyffredin mewn cyfrifiadau cenedlaethol, fel y cwestiwn a gynhwyswyd ers 2001 yn y cyfrifiad ar gyfer Cymru a Lloegr ac yn y cyfrifiad ar gyfer yr Alban. Mae ymgysylltiad yn ymwneud ag agwedd o hunaniaeth unigol, fel ethnigrwydd, rhyw ac iaith. Gall ymgysylltiad crefyddol orgyffwrdd â phob math o linyddau ethnig, diwylliannol a theuluol. Nid yw gwybod bod rhywun yn perthyn i 'Eglwys Loegr' neu'n 'Fwslim' bob amser yn dweud llawer wrthy ch am eu crefydd bersonol.

Mae ymarfer crefyddol yn aml yn cael ei fesur yn ôl amllder presenoldeb mewn addoliad cyhoeddus. Cafodd y broblem o gymryd presenoldeb mewn addoliad fel mesur ar gyfer crefydd ei nodi gan Gordon Allport (1966) ac Allport a Ross (1967) wrth iddyn nhw ymchwilio cydberthynas rhagfarn. Roedden nhw'n dadlau bod crefyddau, yn gyffredinol, yn cefnogi natur agored a chynhwysedd. Eto, roedd y dystiolaeth empirig yn awgrymu bod pobl a oedd yn mynychu eglwys yn rheolaidd â mwy o ragfarn yn aml yn erbyn grwpiau lleiafrifol na rhai oedd ddim yn mynychu eglwys. Fe wnaeth y canfyddiad empirig hwn ysgogi Allport a Ross (1967) i edrych yn fanylach ar gymhellion amrywiol sydd wrth wraidd mynychu eglwys. Fe

wnaethon nhw wahaniaethu rhwng dau gymhelliad gwrthwynebol a nodweddwyd ganddynt fel crefydd gynhenid a chrefydd anghynhenid.

Yn ôl Allport (1966, t. 454) roedd y gwahaniaeth rhwng crefyddusrwydd cynhenid ac anghynhenid yn gwahanu mynychwyr eglwys y mae eu math cymunol o aelodaeth yn ategu ac yn gwasanaethu dibenion eraill, nad ydynt yn rhai crefyddol, oddi wrth y rhai y mae crefydd yn ddiben ynddo'i hun – daioni terfynol, nid cyfryngol – [*separated*] *'churchgoers whose communal type of membership supports and serves other, non-religious ends, from those for whom religion is an end in itself – a final, not instrumental good.'* Aeth Allport (1966, t. 455) ymlaen i ddadlau fel a ganlyn ynglŷn â natur cyfeiriadedd anghynhenid.

While there are several varieties of extrinsic religious orientation, we may say they all point to a type of religion that is strictly utilitarian: useful for the self in granting safety, social standing, solace, and endorsement for one's chosen way of life. (Allport, 1966, t. 455)

Wrth ystyried natur cyfeiriadedd cynhenid, nododd Allport (1966, t. 455) fel a ganlyn.

The intrinsic form of the religious sentiment regards faith as a supreme value in its own right A religious sentiment of this sort floods the whole life with motivations and meaning. Religion is no longer limited to single segments of self-interest. (Allport, 1966, t. 455)

Affaith crefyddol

Mewn llawer o'm hymchwil fy hun o fewn gwyddor empirig seicoleg crefydd, cefais fy nhynnu gan ffocws Allport ar

A oedd Jung yn gywir?

grefyddusrwydd cynhenid ac ar geisio cael mynediad at ymrwymiad mewnol dyfnach yr unigolyn i grefydd, a'i fesur. Y broblem, fodd bynnag, gyda mesurau Allport o grefydd gynhenid yw eu bod yn canolbwyntio ar wahaniaethu'r cymhellion sy'n sail i arfer crefyddol allanol (fel mynychu eglwys). Rwy'n credu y gall pobl fod yn llwyr agored i grefydd heb ymgysylltu â'r math hwn o ymarfer allanol. Yn fy nhraddodiad ymchwil fy hun, rwyf wedi bod yn awyddus i gael at ymrwymiad mewnol dwfn i grefydd yr wyf wedi ei gysyniadoli fel affaith crefyddol ac fel dimensiwn agweddol crefydd. Fe wnes i fesur a gweithredoli'r syniad hwn o grefydd yn gyntaf yng Ngraddfa Francis o Agwedd tuag at Gristnogaeth - *Francis Scale of Attitude toward Christianity* (Francis, 1978a, 1978b). Mae dibynadwyedd a dilysrwydd y mesur hwn wedi cael eu hategu gan nifer o astudiaethau (Francis, Lewis, Philipchalk, Brown, & Lester, 1995). Mae astudiaethau wedi dangos cydberthynas uchel rhwng fy mesur i a mesurau crefydd gynhenid.

Er bod Graddfa Francis o Agwedd tuag at Gristnogaeth wedi ei llunio'n wreiddiol i asesu affaith crefyddol mewn cymdeithasau Cristnogol neu ôl-Gristnogol, mae mesurau dilynol wedi'u llunio i weithredoli'r un lluniad ymysg Mwslimiaid (Sahin & Francis, 2002; Ok, 2016), Iddewon (Francis & Katz, 2007), Hindŵiaid (Francis, Santosh, Robbins, & Vij, 2008) a Bwdhyddion (Thanissaro, 2016). Gyda'r teulu hwn o offerynnau yr wyf wedi ceisio monitro'r cysylltiad rhwng crefydd a lles seicolegol.

Cysyniadoli lles seicolegol

Nid yw'r syniad o les seicolegol yn ddim llai problemus nac yn cael ei herio'n ddim llai na'r syniad o grefydd. Pan fydd pobl yn siarad am les seicolegol efallai y bydd

ganddyn nhw bethau gwahanol iawn mewn golwg. Mae gwyddor empirig seicoleg gwahaniaethau unigol yn dechrau'r dasg o egluro'r syniad problematig hwn trwy wahaniaethu rhwng dwy ffordd graidd y gellir defnyddio'r term. Mae un ffordd yn ymwneud â phatholegau seicolegol, a'r ffordd arall yn ymwneud â gwahanol lefelau o les ymhlith pobl gyffredin ac iach. Mae'r rhain yn ddau faes astudio cwbl wahanol i'w gilydd.

Gall patholegau seicolegol gynnwys ffenomenau fel anhwylder seicotig a niwrotig. Mae ffyrdd a allai fod yn bosib i grefydd ymwneud ag anhwylderau o'r fath, ond nid dyma ffocws yr astudiaeth hon. Yma mae'r ffocws ar les seicolegol ymhlith pobl gyffredin ac iach, sy'n perthyn i faes seicoleg gadarnhaol. O fewn seicoleg gadarnhaol, mae cryn ddadl yn parhau ymhlith gwahanol gysyniadolaethau a mesurau o les seicolegol, gan gynnwys mesurau o foddhad mewn bywyd (Diener, Emmons, Larsen, & Griffin, 1985), pwrpas mewn bywyd (Crumbaugh & Maholick, 1969) a hapusrwydd personol (Argyle, Martin, & Crossland, 1989; Hills & Argyle, 2002).

O blith y cysyniadolaethau a'r mesurau amrywiol hyn o les seicolegol, mae fy ngrŵp ymchwil wedi ffafrio'r mesurau a gynigiwyd gan Michael Argyle a'i gydweithwyr, ac yn arbennig y rhestren *Oxford Happiness Inventory* (Argyle, Martin, & Crossland, 1989). Mae'r rhestren hon wedi'i llunio ar sail diffiniad trylwyr a chdir o'r lluniad sy'n cael ei asesu ac fe ddangoswyd mewn nifer o astudiaethau ei bod yn meddu ar nodweddion da o ddibynadwyedd a dilysrwydd (Francis, Brown, Lester, & Philipchalk, 1998). Mae syniad Argyle o hapusrwydd yn cynnwys tair elfen. Yr elfen gyntaf yw amledd a graddau affaith cadarnhaol neu lawenydd. Yr ail yw lefel

A oedd Jung yn gywir?

gyfartalog boddhad dros gyfnod o amser. Y drydedd yw absenoldeb teimladau negyddol, fel pryder ac iselder. Y pwynt pwysig yw nad yw'r tair elfen yn gweithio'n annibynnol, ond yn hytrach fel dangosyddion cydlynol o luniad sylfaenol sefydlog. Y lluniad sylfaenol sefydlog hwn yw'r hyn y mae Argyle yn ei ystyried fel hapusrwydd.

Cysylltu affaith crefyddol a hapusrwydd personol

Gan adeiladu ar yr ystyriaethau hyn ar ddiffiniad a mesur crefydd a lles seicolegol, aeth fy ngrŵp ymchwil ati yng nghanol y 1990au i archwilio'r cysylltiad rhwng affaith crefyddol a hapusrwydd personol trwy wahodd sampl o 360 o fyfyrwyr israddedig blwyddyn gyntaf i gwblhau arolwg a oedd yn cynnwys graddfa Francis, *Francis Scale of Attitude toward Christianity*, a'r rhestren *Oxford Happiness Inventory*. Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys cwestiynau ynghylch oedran a rhyw, a'r holiadur *Eysenck Personality Questionnaire Revised* (Eysenck, Eysenck, & Barrett, 1985). Wrth archwilio'r gydberthynas rhwng affaith crefyddol a hapusrwydd, roedd oedran, rhyw a phersonoliaeth yr unigolyn yn newidynnau rheoli pwysig i'w hystyried. Mae astudiaethau tri dimensiwn Eysenck o bersonoliaeth (allblygedd, niwrotiaeth a seicotigrwydd) wedi cael eu hamlygu gan astudiaethau eraill i fod yn rhagfynegwyr arwyddocaol o wahaniaethau unigol mewn perthynas â'r *Oxford Happiness Inventory* (Francis, Brown, Lester, & Philipchalk, 1998) ac mewn perthynas â'r *Francis Scale of Attitude toward Christianity* (Francis, 1992).

Dangosodd canlyniadau'r astudiaeth gyntaf hon, a adroddwyd gan Robbins a Francis (1996), gydberthynas gadarnhaol arwyddocaol rhwng affaith

crefyddol a hapusrwydd, ar ôl dethol oedran, rhyw a phersonoliaeth. Mewn geiriau eraill, nododd yr astudiaeth gysylltiad cadarnhaol rhwng crefyddau a lles seicolegol.

Wrth adeiladu corff o wybodaeth wyddorol, mae gan y syniad o ddyblygu ran bwysig i'w chwarae. Dylid trin canlyniadau astudiaeth gychwynnol sengl yn ofalus bob amser nes bod astudiaethau eraill a gynhaliwyd gyda'r un unigolion wedi cael eu gwirio a chyfle wedi bod i weld a ydynt yn cynhyrchu'r un canfyddiadau. Gyda'r nod hwn mewn golwg, gwahoddodd y grŵp ymchwil oedd gennyf samplau pellach i gwblhau'r un set o fesurau. Yn yr astudiaethau hyn, roedd 212 o fyfyrwyr israddedig yn Unol Daleithiau America (Francis & Lester, 1997); 295 o unigolion, yn amrywio o ran oedran o bobl ifanc yn eu harddegau hwyr i rai yn niwedd eu saithdegau, wedi'u recriwtio o blith cyfranogwyr a oedd yn mynychu amrywiaeth o gyrsgiau a gweithdai ar seicoleg crefydd (Francis & Robbins, 2000); 994 o fyfyrwyr ysgolion uwchradd 15 i 16 oed (Francis, Jones, & Wilcox, 2000); 496 o aelodau Prifysgol y Drydedd Oes (Francis, Jones, & Wilcox, 2000); 456 o fyfyrwyr israddedig yng Nghymru (Francis, Jones, & Wilcox, 2000); a 89 o fyfyrwyr yng Nghymru (Francis, Robbins, & White, 2003). Gyda'i gilydd, dangosodd y saith sampl hyn (yn yr hyn yr oedd N = 360, 212, 295, 995, 456, 496, 89) batrwm cyson o gydberthynas gadarnhaol arwyddocaol rhwng crefydd a hapusrwydd, yn seiliedig ar ddefnyddio'r un offerynnau mewn cyd-destunau gwahanol. Roedd y strategaeth wyddorol o ddyblygu yn ymddangos fel pe bai'n dwyn ffrwyth, er y byddai astudiaethau pellach yn parhau i fod yn ddymunol.

A oedd Jung yn gywir?

Fe wnaeth cam nesaf y rhaglen ymchwil ymestyn yr astudiaethau a ddyblygwyd y tu hwnt i'r cyd-destun Cristnogol neu ôl-Gristnogol. Roedd estyniad cyntaf yr ymchwil o fewn cyd-destun Iddewig yn Israel gan ddefnyddio'r raddfa agwedd *Katz-Francis Scale of Attitude toward Judaism* ochr yn ochr â'r *Oxford Happiness Inventory*. Rhwng 2002 a 2014, cyhoeddwyd tair astudiaeth ac roedd pob un yn nodi cysylltiad cadarnhaol arwyddocaol rhwng crefydd a hapusrwydd ymhlith myfyrwyr yn Israel: 298 o fyfyrwyr israddedig benywaidd a oedd yn siaradwyr Hebraeg (Francis & Katz, 2002); 203 o fyfyrwyr israddedig gwrywaidd a oedd yn siaradwyr Hebraeg (Francis, Katz, Yablon, & Robbins, 2004); a 348 o fyfyrwyr israddedig benywaidd a oedd yn siaradwyr Hebraeg (Francis, Yablon, & Robbins, 2014). Mae atgynhyrchiadau pellach ar waith ar hyn o bryd yn Israel.

Roedd ail estyniad yr ymchwil o fewn cyd-destun Islamaidd yn Nhwrci, gan ddefnyddio'r *Ok Religious Attitude Scale (Islam)* (Ok, 2016) ochr yn ochr â'r *Oxford Happiness Inventory*. Roedd yr astudiaeth hon, a gynhaliwyd ymhlith 348 o fyfyrwyr yn astudio mewn prifysgol wladol, hefyd wedi canfod cysylltiad cadarnhaol arwyddocaol rhwng crefydd a hapusrwydd (Francis, Ok, & Robbins,

2016). Adroddwyd ar yr ail astudiaeth o fewn cyd-destun Islamaidd gan Tekke, Francis, a Robbins (yn y wasg) ymhlith 189 o fyfyrwyr a oedd yn astudio yn yr International Islamic University yn Malaysia a wnaeth gwblhau'r *Sahin-Francis Scale of Attitude toward Islam* (Sahin & Francis, 2002) a'r *Oxford Happiness Inventory*. Nododd yr astudiaeth hon hefyd gydberthynas gadarnhaol rhwng crefydd a hapusrwydd.

Casgliad

Lluniwyd y papur hwn i archwilio'r dystiolaeth ar gyfer y farn bod crefydd yn dda ar gyfer lles seicolegol pobl gyffredin. Mireiniwyd a miniogwyd y cwestiynau ymchwil gan drafodaethau difrifol ynghylch beth a olygir yw crefydd a beth a olygir yw lles seicolegol. Yng ngoleuni'r trafodaethau hyn cyflwynwyd rhaglen ymchwil a oedd wedi ei sefydlu ers peth amser a oedd wedi'i llunio ar gyfer archwilio'r cysylltiadau rhwng affaith crefyddol a hapusrwydd. Gan ddefnyddio'r diffiniadau a'r mesurau hyn, mae cyfres o astudiaethau a gynhaliwyd mewn cyd-destunau Cristnogol, Iddewig ac Islamaidd wedi cynhyrchu tystiolaeth gyson i ategu'r farn bod crefydd yn dda er lles seicolegol pobl gyffredin. Yn ei thro, mae'r farn hon yn gyson â'r sefyllfa ehangach a ddatblygwyd gan Carl Jung.

A oedd Jung yn gywir?

Geirfa

Agwedd (Attitude) - Diffinnir agwedd fel rhagdybiaeth sylfaenol gymharol sefydlog er mwyn gwerthuso ffenomenau penodol yn gadarnhaol *neu'n negyddol*.

Cysyniadoli (Conceptualisation) - Mae cysyniadoli yn cyfeirio at y ffordd y caiff syniad ei lunio a'i ffurfio.

Lluniad (Construct) - Mae lluniad yn enw neu'n briodwedd haniaethol (sy'n aml yn cael ei ddiffinio'n a'i 'weithredoli' yn ofalus).

Newidynnau rheoli (Control variables) - Mae newidynnau rheoli yn 'lluniadau' y mae angen eu hystyried er mwyn egluro'r cysylltiad rhwng dau newidyn allweddol dan sylw. Er enghraifft, os yw menywod yn fwy crefyddol ac yn llai hapus na dynion, gall gwahaniaethau o ran rhyw lygru'r cysylltiad rhwng crefydd a hapusrwydd. O ganlyniad, mae angen ystyried rhyw'r unigolyn fel newidyn rheoli.

Cydberthynas (Correlation) – Mae cydberthynas yn cyfeirio at y graddau y mae un newidyn yn amrywio'n barhaus â newidyn arall.

Eitemau (Items) - Eitemau yw'r brawddegau, yr ymadroddion neu'r geiriau unigol mewn holiadur sy'n cyfuno i gynhyrchu graddfeydd.

N yw'r nodiant ystadegol sy'n golygu nifer y cyfranogwyr mewn astudiaeth.

Gweithredoli (Operationalisation) - Mae gweithredoli yn cyfeirio at y modd y mesurir cysyniad.

Dibynadwyedd (Reliability) - Diffinnir dibynadwyedd fel y graddau y mae mesurau seicolegol yn cynhyrchu mesurau sefydlog.

Dilysrwydd (Validity) - Diffinnir dilysrwydd fel y graddau y mae mesurau seicolegol mewn gwirionedd yn mesur yr hyn y maent yn honni ei fesur.

Newidynnau (Variables) - Newidynnau mewn ymchwil empirig yw 'lluniadau' sy'n gallu cario dau neu fwy o werthoedd. Er enghraifft, mae rhyw unigolyn yn cario dau werth (cod gwryw = 1, a benyw = 2), ac mae 'Sgôr Likert' yn cynnwys 5 gwerth (yn anghytuno'n gryf = 1, yn anghytuno = 2, ddim yn sicr = 3, cytuno = 4, a cytuno'n gryf = 5).

Pwyntiau trafod

1. Sut ydych chi'n deall y syniad o 'grefydd gynhenid' a'r syniad o 'affaith crefyddol'? Pe baech chi'n mesur y lluniadau hyn, pa eitemau fydddech chi'n eu cynnwys yn eich holiadur?
2. Sut ydych chi'n deall y syniad o hapusrwydd? Pe baech chi'n

mesur y lluniad hwn, pa eitemau fydddech chi'n eu cynnwys yn eich holiadur?

3. Pa mor bwysig ydych chi'n meddwl yw'r syniad o ddyblygu wrth sefydlu corff o wybodaeth wyddorol?

Cyfeiriadaeth

- Allport, G.W. (1966). Religious context of prejudice. *Journal for the Scientific Study of Religion*, 5, 447-457.
- Allport, G.W., & Ross, J.M. (1967). Personal religious orientation and prejudice. *Journal of Personality and Social Psychology*, 5, 432-443.
- Argyle, M., Martin, M., & Crossland, J. (1989). Happiness as a function of personality and social encounters. In *Recent advances in social psychology: An international perspective* (pp. 189-203). Eds. J.P. Forgas and J.M. Innes, Amsterdam: Elsevier Science Publishers.
- Crumbaugh, J.C., & Maholick, L.T. (1969). *Manual of instructions for the Purpose in Life Test (PIL)*. Munster, Indiana: Psychometric Affiliates.
- Diener, E.D., Emmons, R.A., Larsen, R.J., & Griffin, S. (1985). The Satisfaction with Life Scale. *Journal of Personality Assessment*, 49, 71-75.
- Eysenck, S.B.G., Eysenck, H.J., & Barrett, P. (1985). A revised version of the psychoticism scale. *Personality and Individual Differences*, 6, 21-29.
- Francis, L.J. (1978a). Attitude and longitude: A study in measurement. *Character Potential*, 8, 119-130.
- Francis, L.J. (1978b). Measurement reapplied: Research into the child's attitude towards religion. *British Journal of Religious Education*, 1, 45-51.
- Francis, L.J. (1992). Is psychoticism really a dimension of personality fundamental to religiosity? *Personality and Individual Differences*, 13, 645-652.
- Francis, L.J., Brown, L.B., Lester, D., & Philipchalk, R. (1998). Happiness as stable extraversion: A cross-cultural examination of the reliability and validity of the Oxford Happiness Inventory among students in the UK, USA, Australia and Canada. *Personality and Individual Differences*, 24, 167-171.
- Francis, L.J., Jones, S.H., & Wilcox, C. (2000). Religiosity and happiness: During adolescence, young adulthood and later life. *Journal of Psychology and Christianity*, 19, 245-257.
- Francis, L.J., & Katz, Y.J. (2002). Religiosity and happiness: A study among Israeli female undergraduates. *Research in the Social Scientific Study of Religion*, 13, 75-86.
- Francis, L.J., & Katz, Y.J. (2007). Measuring attitude toward Judaism: The internal consistency reliability of the Katz-Francis Scale of Attitude toward Judaism. *Mental Health, Religion and Culture*, 10, 309-324.
- Francis, L.J., Katz, Y.J., Yablon, Y., & Robbins, M. (2004). Religiosity, personality and happiness: A study among Israeli male undergraduates. *Journal of Happiness Studies*, 5, 315-333.
- Francis, L.J., & Lester, D. (1997). Religion, personality and happiness. *Journal of Contemporary Religion*, 12, 81-86.

A oedd Jung yn gywir?

- Francis, L.J., Lewis, J.M., Philipchalk, R., Brown, L.B., & Lester, D. (1995). The internal consistency reliability and construct validity of the Francis Scale of Attitude toward Christianity (adult) among undergraduate students in the UK, USA, Australia and Canada. *Personality and Individual Differences, 19*, 949-953.
- Francis, L.J., Ok, U., & Robbins, M. (2017). Religion and happiness: A study among university students in Turkey. *Journal of Religion and Health, 56*, 1335-1347.
- Francis, L.J., & Robbins, M. (2000). Religion and happiness: A study in empirical theology. *Transpersonal Psychology Review, 4*(2), 17-22.
- Francis, L.J., Robbins, M., & White, A. (2003). Correlation between religion and happiness: A replication. *Psychological Reports, 92*, 51-52.
- Francis, L.J., Santosh, R., Robbins, M., & Vij, S. (2008). Assessing attitude toward Hinduism: The Santosh-Francis Scale. *Mental Health, Religion and Culture, 11*, 609-621.
- Francis, L.J., Yablon, Y.B., & Robbins, M. (2014). Religion and happiness: A study among female undergraduate students in Israel. *International Journal of Jewish Education Research, 7*, 77-92.
- Hills, P., & Argyle, M. (2002). The Oxford Happiness Questionnaire: A compact scale for the measurement of psychological well-being. *Personality and Individual Differences, 33*, 1073-1082.
- Ok, Ü. (2016). The Ok Religious Attitude Scale (Islam): Introducing an instrument originated in Turkish for international use. *Journal of Beliefs and Values, 37*, 55-67.
- Robbins, M., & Francis, L.J. (1996). Are religious people happier? A study among undergraduates. In *Research in religious education* (pp. 207-218). Eds. L.J. Francis, W.K.Kay, & W.S. Campbell, Leominster: Fowler Wright Books.
- Sahin, A., & Francis, L.J. (2002). Assessing attitude toward Islam among Muslim adolescents: The psychometric properties of the Sahin-Francis scale. *Muslim Educational Quarterly, 19*(4), 35-47.
- Tekke, M., Francis, L.J., & Robbins, M. (2018). Religious affect and personal happiness: A replication among Sunni students in Malaysia. *Journal of Muslim Mental Health, 11*(2), 3-15.
- Thanissaro, N. (2016). Validity and reliability of a revised scale of attitude toward Buddhism (TSAB-R). *Religions, 7*(5), 44.

Y Parchg Ganon Athro Leslie J. Francis yw Cyfarwyddwr Uned Ymchwil Addysg Crefyddau Warwick ym Mhrifysgol Warwick. (Gall myfyrwyr neu staff sydd â diddordeb mewn llunio neu ateb holiaduron yn y meysydd hyn gysylltu â'r Athro Francis ar leslie.francis@warwick.ac.uk)

Islam a Democratiaeth: A ydyn nhw'n Cydweddu neu'n Anghymharus? Rhan 1: Cefndir a Materion

Abdullah Sahin

Mae'r erthygl yn cyflwyno cefndir i'r berthynas rhwng Islam a democratiaeth seciwlar, a'r materion a godir gan astudiaeth o'r fath.

Cyswllt manyleb:

WJEC/CBAC/EDUQAS Uned 3: Astudio Crefydd, Opsiwn B: Astudio Islam, Thema 2: Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd grefyddol, Gwybodaeth a dealltwriaeth o grefydd a chred.

EDEXCEL Papur 4: Opsiwn 4D: Islam, Testun 3: Ymarferiadau, 3.2 Yr ummah fel mynegiant o hunaniaeth Islamaidd; Testun 6: Crefydd a Chymdeithas, 6.3.

OCR Datblygiadau mewn Meddylfryd Islamaidd, 6: Heriau, Testun: Islam a'r Wladwriaeth.

AQA 2D Islam: Islam a'r her o seciwlariaeth; Islam, mudo a lluosogrwydd crefyddol.

Cyflwyniad

Yn ddiweddar, mae'r cwestiwn ynglŷn â'r cydweddoldeb rhwng Islam a democratiaeth ac a ellir cysoni Islam o gwbl gyda democratiaeth ryddfrydol seciwlar fodern, wedi denu cryn drafodaeth yng nghymdeithasau mwyafrifol Mwslimaidd yn ogystal ag yn y Gorllewin, lle mae Mwslimiaid, erbyn hyn, yn lleiafrif crefyddol cydnabyddedig. Nid y aml y clywir am drafodaeth gyffelyb ynghylch Cristnogaeth neu Iddewiaeth, chwaer grefydd Islam yn nhraddodiadau ffydd, nac yn wir am grefyddau mawr eraill y byd, fel Hindŵaeth neu Fwdhaeth.

Beth, felly, sy'n gwneud achos o blaid Islam mor amlwg?

Amcan yr erthygl hon yw archwilio'r testun trwy drafod yn gyntaf y cyd-destun ehangach a'r sail resymegol sydd y tu cefn i gyferbynnu Islam, traddodiad ffydd undduwiaethol, gyda democratiaeth, sydd yn drefn seciwlar o lywodraeth wleidyddol Orllewinol. Rhaid nodi y gall yr ymchwiliad a'r dadansoddiad o fater mor ddadleuol yn hawdd ddwyn atynt elfennau o leihadaeth ac anacroniaeth, gyda'r perygl o ddefnyddio cysyniadau a phrofiadau sy'n gynhenid i ymarferiad

diwylliannol nodedig, ac a esblygodd o gyfnod penodol o hanes er mwyn egluro a deall ffenomen nodedig arall wedi ei gwreiddio mewn cyd-destun hanesyddol a diwylliannol gwahanol. Er mwyn osgoi'r fath ddiffyg methodolegol, bydd yr erthygl hon yn bwrw golwg byr dros naratif canolog Islam, natur yr awdurdod crefyddol/ysbrydol a'r ddiwinyddiaeth wleidyddol a berthyn i Islam, a thrafod sut y ffurfiwyd y berthynas rhwng ffydd a grym gwleidyddol mewn mynegiant hanesyddol amrywiol o Islam.

Islam ac ailymddangosiad y ddadl ar grefydd mewn democratiaethau seciwlar

Cafodd y drefn wleidyddol seciwlar ynghyd â'i myth o ddirywiad 'anochel' crefydd ei gwreiddio mor ddofn yng nghymdeithasau'r Gorllewin i'r fath raddau fel prin y byddai neb wedi rhagweld crefydd yn dychwelyd i'r byd modern fel dynameg wleidyddol-gymdeithasol arwyddocaol a fyddai'n tra-arglwyddiaethu ar drafodaeth gyhoeddus. Tarddodd y gwahaniad rhwng yr eglwys a'r wladwriaeth, a arweiniodd at ffurfio model trefniannaeth amrywiol rhwng gwladwriaethau seciwlar ac awdurdodau Cristnogol yng Ngorllewin Ewrop, o broses hanesyddol hirfaith a ffurfiwyd gan ddigwyddiadau ffurfiannol fel y Dadeni Dysg, y Diwygiad a'r Oleuedigaeth. Daeth y digwyddiadau hanesyddol arwyddocaol hyn at ei gilydd er ffurfio naratif trosfwaol a ddaeth l'w adnabod fel 'Modernedd seciwlar gorllewinol - *Western secular modernity*'. Ymddengys bod mas-seciwlariaeth diwylliannol wedi digwydd i bob pwrpas gyda thwf cymdeithas fasnachol a darddodd o'r ffyniant economaidd a ddilynodd gyfnod yr Ail Ryfel Byd, pan ehangodd yr economi fasnachol gyfalafol fyd-eang. Er gwaethaf y dirywiad graddol

mewn crefydd gyfundrefnol yng Ngorllewin Ewrop, mae athrawiaethau cymdeithasol a moesol sydd ynghlwm wrth y traddodiad Iddewig-Gristnogol wedi ffurfio'r syniadau am wasanaeth cyhoeddus, moeseg gwaith a'r daioni cyffredinol sydd yn hanfodol er cynnal yr ystyriaethau cyffredin o ymddiriedaeth oddi mewn i'r gyfundrefn wleidyddol ddemocrataidd seciwlar fodern.

Fodd bynnag, fe barodd yr amddifadedd o atgof crefyddol i grefydd gael ei gwthio at gyrion cymdeithas, a honnir yn fwyfwy gan lawer mai crair sy'n perthyn i orffennol pell ydyw. Canlyniad negyddol dirywiad cyflym mewn ymglymiad crefyddol - ynghyd ag mewn llythrenogrwydd crefyddol, fel y nodir mor addas mewn casgliad diweddar o draethodau (Stoddart & Martin 2017) - yw bod crefydd wedi datblygu'n un o'r ffenomenau mwyaf ystrydebol yn y Gorllewin. Ond mae'n ymddangos nad yw modernedd seciwlar, gyda'i feirniadaeth systematig o grefydd, wedi dod â diwedd yn hollol i grefydd. I'r gwrthwyneb, o edrych yn ôl, mae'n ymddangos bod y feirniadaeth gref hon yn anfwriadol, wedi bod o gymorth i ail-ddarganfod yr ystyron gwreiddiol sy'n ymgorffori'r ysbryd o fod yn ffyddlon a gafodd eu hatal yn affwysol pan ddaeth crefydd gyfundrefnol yn wasaidd gerbron cymhellion gwleidyddol ymerodraethol a oedd yn aml yn cyfreithloni eu strwythur awdurdodaidd grymus. Eglura'r diweddar Wilfred Cantwell Smith, oedd yn arbenigwr uchel ei barch ar grefydd gymharol ac yn awdurdod cydnabyddedig ar Islam, sut y digwyddodd y broses hanesyddol hon o ail-ddarganfod yng nghyd-destun Gorllewin Ewrop trwy gynnig dadansoddiad beirniadol o'r gair 'crefydd' a'i esblygiad hanesyddol a'i dderbyniad modern. Mae'n tynnu sylw at y gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y

Islam a Democratiaeth: A ydyn nhw'n cydweddu neu'n anghymarus? Rhan 1

defnydd modern o'r gair 'crefydd - religion', a boblogeiddiwyd yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg fel casgliad o 'syniadau a chredoau am Dduw', a'i wraidd Lladin *religio* a oedd yn golygu ffydd, yn ymgorfforiad byw o ymrwymiad ac ymddiriedaeth, ac uwchlaw popeth, yn ffordd nodedig o ddeall bywyd a byw a bod yn y byd. Mae'n awgrymu'n ymhellach bod *religio* yn ei dro yn tarddu o'r gair *ligare* sy'n golygu 'clymu' neu 'gysylltu', ac felly'n brofiad nodedig o ymgysylltu ac ymglymu â Duw, ac eraill, ac â'r byd naturiol o'n cwmpas. Ar y lefel gymdeithasegol, mae mynegiad ysbrydol parhaol ffres ac adfywiad o draddodiadau crefyddol sefydledig wedi cael eu dehongli gan rai ysgolheigion i nodi dechreuad realaeth gymdeithasol ôl-seciwlar yn ymddangos yn y Gorllewin (Berger, 1970; Habermas, 2008).

Bu arwyddocâd cymdeithasegol crefyddau yn y byd modern yn fodd o gadw'r drafodaeth ar y berthynas rhwng crefydd a gwleidyddiaeth yn fyw. Rhaid nodi, fodd bynnag, bod presenoldeb Islam yng Ngorllewin Ewrop yn ystod y cyfnod ôl-Ail Ryfel Byd wedi cyfrannu'n sylweddol at y drafodaeth adnewyddol hon ynglŷn â rôl a lle crefydd oddi mewn i ddemocratiaethau seciwlar cyfoes. Mae gan wladwriaethau seciwlar Ewrop fodelau trefniannol hir-sefydledig oddi mewn i'r amrywiol/gwahanol eglwysi Cristnogol, a ddaeth i fod sgil Heddwch Westphalia- *the Peace of Westphalia* (1648), a roddodd derfyn ar ryfeloedd crefyddol Ewropeaidd. Ond ymddengys eu bod yn ymdrechu i gydnabod ac ymwneud ag Islam ac i ddiwallu anghenion crefyddol eu dinasyddion Mwslimaidd. Mae rhan o'r anhawster hwn yn tarddu o'r ffaith bod awdurdod crefyddol Islam, yn wahanol i Gristnogaeth, yn bennaf yn ddi-ffurf ac

nad yw'n ffitio oddi mewn i sefydliadau cynrychiadol hawdd eu deall fel eglwys neu berson(au) fel y pab neu gyfundrefn awdurdod eglwysig. Yn fwy arwyddocaol, mae seciwlariaeth wleidyddol a diwylliannol, ffenomenon sy'n unigryw i stori Gorllewin Ewrop, lle y dywedir yn aml fod crefydd yn gyfyngedig i gylch gofod personol, yn parhau'n estron i hunan-ddealltwriaeth o Islam. Ac yn olaf, mae'r realiti o gystadleuaeth hanesyddol rhwng 'Y Byd Islamaidd' a'r 'Byd Cristnogol' wedi brigo i'r wyneb yng nghyd-destun y byd modern, yn niwyg y gwrthdaro rhwng 'Islam a'r Gorllewin seciwlar'.

Bu'r ymfudiad i'r Gorllewin gan Fwslimiaid yn y cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd, a'r realiti o Ddwyrain Canol llawn gwrthdaro, ynghyd â chynnydd mewn terfysgaeth ryngwladol wedi ei ysgogi gan grefydd, i gyd yn gyfrifol am greu ofnadwyaeth afresymol o Islam/Mwslimiaid, ('*Islamophobia*'). Cysylltir Islam yn fwyfwy â ffanatigiaeth, gwrthdaro a thrais ac o ganlyniad yn fygythiad i heddwch y byd. Ymhlyg yn y rethreg gwrth-Islam ofnadwy sydd ar gynnydd yng ngwleidyddiaeth poblyddol asgell dde, ynghyd â dyneiddiaeth seciwlar ymosodol, natur y ffydd Fwslimaidd, ac arddull byw a'r meddylfryd sy'n ei hymgorffori a'i bytholi, yw'r hyn a honnir sydd yn broblem yn y byd modern. Mewn termau mwy penodol, honnir nad yw Islam, yn annhebyg i Gristnogaeth, wedi cael 'ei Diwygiad' nac wedi cael ei dofi gan feirniadaeth o du modernedd seciwlar ac, felly, mae'n aros yn anghymarus â gwerthoedd democratiaeth ryddfrydol y Gorllewin sy'n gofyn bod crefydd a gwleidyddiaeth wedi eu gwahanu, bod gwarant o ryddfynegiant, iawnderau dynol a chydraddoldeb rhwng merched a

dynion, ac yn y blaen. Mae'r cymunedau Mwslimaidd a ymfudodd, a oedd yn bennaf wedi cyrraedd o fannau cefn gwlad yng ngwledydd eu mebyd, lle'r oedd y gymdeithas yn dra thraddodiadol, bellach yn byw yn bennaf mewn dinasoedd modern y Gorllewin, sy'n lleoedd seciwlar, ac yn amryfath ddiwylliannol a chrefyddol. Mae hyn wedi dwysáu'r ddadl ynghylch pa mor berthnasol yw Islam, y credwyd ei bod yn grefydd ormesol ganoloesol a oedd yn anghytuno â'r byd modern. Mae Islam hefyd yn gosod sialensiau gerbron democratiaeth seciwlar oherwydd ei bod yn ymdrechu i ddelio â gofynion crefyddol-ganolog Mwslimiaid a'u hawliau fel rhai oedd yn rhan o grefydd leiafrifol, a'u cymhwyso. Ar adegau gall ymddangos mai cymathiad Mwslimiaid i safonau democratiaeth seciwlar a'i ffordd o fyw perthynol yw'r unig opsiwn sydd ar gael i sicrhau eu 'hintegreiddio i gymdeithas Orllewinol.

Beth yw naratif canolog Islam a sut y caiff awdurdodau crefyddol, ysbrydol a gwleidyddol eu hamgyffred mewn traddodiadau Mwslimaidd?

Yn achos pob Mwslim, y Qur'an fel datguddiad dwyfol yw llythrennol air Duw. Mae'n cynnwys craidd awdurdod ac arweiniad crefyddol. I'r Mwslimiaid Sunni, mae'r adroddiadau proffwydol dilys a adnabyddir fel Hadith, sy'n cynnwys traddodiadau byw'r Proffwyd, a elwir Sunna, hefyd yn gweithredu fel ffynhonnell anaralladwy o awdurdod crefyddol sy'n trwytho Mwslimiaid am eu hagweddu personol a chymdeithasol yn ogystal â'u hymddygiad. Yn ychwanegol, yn achos Mwslimiaid Shia, mae'r traddodiadau a'r adroddiadau a briodolir i'r hyn y maent yn ei gredu, sef bod y gwarchodwyr dwyfol enwebedig (imams)

hefyd yn gweithredu fel ffynhonnell arwyddocaol o awdurdod ac arweiniad crefyddol, cyfreithiol ac ysbrydol (*marji*).

Mae neges graidd ganolog y Qur'an i ddynoliaeth a'i geirfa ddiwinyddol wedi eu plannu mewn bydysawd dyfnach o ystyriaethau moesegol. Mae'n ymddangos mewn Islam, yn wahanol i bob traddodiad ffydd byd-eang arall, fod yno hunanymwybyddiaeth a hunan-enwi yn eglur iawn, oddi mewn i'w hysgrythur sylfaenol. Mae'r Qur'an yn cyfarch y proffwyd a'r Mwslimiaid cynnar trwy ddweud, heddiw fe berffeithiodd/gwblhaodd Duw eich crefydd (al-dīn) ac mae'n fodlon gydag Islam i fod yn grefydd i chi - *'today God has perfected/completed your religion (al-dīn) and is pleased with Islam to be your religion'* (5:3).¹ Ond mae'n arwyddocaol mai ystyr y gair Islam fan hyn yw 'ymostyngiad heddychol' i ewyllys Duw - *'peaceful submission'* to the will of God, ac y mae *dīn* yn golygu ymrwymiad diffuant i fyw bywyd cyfiawn, sy'n foesegol atebol a chyfrifol, gerbron Duw, pobl eraill a byd natur. Gan hynny, fe ddywedodd Wilfred Cantwell Smith (a oedd yn Gristion ymroddedig) yn nodedig ei fod ef yn 'fwslim'.

Gellir crynhoi y rhesymeg foesegol sylfaenol, sy'n britho'r cyfan o'r naratif Qur'anaidd, fel a ganlyn: Mae Duw, trwy rinwedd ei rodd o fywyd i ddynoliaeth, yn disgwyl cydnabyddiaeth a diolchgarwch am y weithred hon o haelioni dwyfol. Bydd y rhai, ar ôl ystyried, sy'n dewis cydnabod ffafr Duw ac o wirfodd calon yn mynegi eu diolchgarwch trwy addoli Duw yn unig, yn cyflawni'r statws o ffyddlondeb, tangnefedd a hedd: hynny yw, yn dod yn 'Fwslimiaid/Mw'miniaid' (yn llythrennol,

¹ Mewn perthynas â'r Qur'an, cyfeiria'r rhif cyntaf at rif y bennod (sura) a'r ail at rif yr adnod (aya).

awgryma'r ffurfiau hyn eu bod mewn cyflwr o heddwch a diogelwch; yn ddiwinyddol, maent yn cyfeirio at y ffyddlon rai sy'n ymddiried ac o wirfodd calon yn ymostwng i'r creawdwr). Mae ffyddlondeb wedi ei glymu'n dynn at y statws moesegol o fod yn ddiolchgar i'r creawdwr, ac mae'n gallu mynegi'r diolchgarwch hwn trwy wneud daioni i eraill. Mae'r Qur'ān yn darlunio'r hyn sy'n groes i ffyddlondeb fel anniolchgarwch; mae'r rhai sy'n dewis peidio â chydabod (yn gorchuddio'n fwriadol, yn anwybyddu ac yn gwadu) ffafrau Duw a'r rhodd o fywyd yn dod yn 'Kāfirs' (yn llythrennol, y rhai anniolchgar) (Izutsu, 2002). Fel y cyfryw, yn naratif creiddiol Islam, mae'r berthynas ddwyfol-ddynol yn adlewyrchu'r ddwyochredd sydd ynghlwm wrth hawliau a chyfrifoldebau; ac, yn fwyaf arwyddocaol, mae'n cael ei arwain gan berthynas ddyfnach a moeseg resymol (Rahman, 1980; 2002). Dyna pam, yn Islam, mae'r syniad o gyfiawnder ('*adl/qist*'), sydd â chyswllt agos â'r syniad o wirionedd (*haqq*), mor ganolog i'r pwynt bod trugaredd, tosturi a chariad Duw tuag at ddynolryw yn cael eu cymhwyso oddi mewn i egwyddor ddyfnach o gyfiawnder: y dymuniad i gadarnhau urddas a hawliau pawb, lle mae harmoni a chydbwysedd yn cynnwys calon bywydau personol a chymdeithasol. Mae'r Qur'ān yn datgan mai'r rheswm llwyr dros ysbrydoli'r niferus broffwydi yw'r disgwyliad y gallant ddod yn gatalyddion er mwyn galluogi'r ddynoliaeth i sefydlu cyfiawnder ymysg eu hunain (57:25).

Yn yr un modd, mae dysgeidiaeth sylfaenol y Qur'ān, *tawhīd* (cydnabod Unoliaeth Duw), hefyd yn golygu bod â'r gallu i amgyffred haen ddyfnach o undod, cydbwysedd a chyd-ddibyniaeth oddi mewn i'r amodoldeb a'r amrywiaeth a ganfyddir mewn bywyd. Y syniad yw y

dylai bodau-dynol geisio amgyffred y cyd-gysylltiadoldeb a'r gyd-ddibyniaeth sy'n bodoli ym myd natur a bodolaeth bodau dynol. Fe ddylai'r weledigaeth hon o ddod ynghyd, *tawhīd* arwain bodau dynol, tra byddant yn cymodi eu gwahaniaethau ac yn datrys gwrthdrawiadau posib.

O ganlyniad i'r moesegau deinamig hyn sy'n ffurfio shariah, caiff Islam ei darlunio yn aml fel ffydd sy'n seiliedig ar 'hawliau', am fod hawliau dynol (*huquq al-'ebād*) a rhai a berthyn i'r creawdwr (*huquq Allah*) yn cael eu hadnabod yn eglur ym meddylfryd cyfreithiol y Mwslim. Tra bod gan Dduw, fel yr Un sy'n rhoi'r rhodd o fywyd, yr hawl i gael ei gydnabod, mae gan fodau dynol yr hawl i amddiffyn eu hurddas (*karamah*). Trwy weithio oddi mewn i fframwaith y syniad nodedig hwn o 'hawliau dynol' yn Islam, mae ysgolheigion Mwslimaidd clasurol wedi canfod y pum hawl canlynol fel rhai sy'n crynhoi ethos eithaf moesegau a chyfraith Islamaidd (*maqasid al-shariah*): yr hawl i amddiffyn bywyd, teulu (*hynafiaethol*), eiddo, crefydd ac, yn fwy arwyddocaol, gallu'r meddwl dynol sy'n ganolog i ddiogelu pwyll dynol a'r angen hanfodol o atebolrwydd crefyddol a chyfreithiol (*taklif*) mewn Islam (Sahin, 2011).

Mae'r Qur'ān yn cydnabod y ffaith y bydd ymgorfforiad a dehongliad o *sharia* mewn bwyd dynol o angenrheidrwydd yn ddibynnol ar gyd-destun. Felly mae'r Qur'ān yn cydnabod yr amrywiaeth anochel yn y cymwysiadau/mynegiannau hanesyddol o'r *shariah* dwyfol (5:48; 45:18). Mae presenoldeb gwahanol garfanau o feddylwyr cyfreithiol yn Islam yn dangos realiti o luosogrwydd cyfreithiol deinamig yn y traddodiad Mwslimaidd (Hallaq, 2001). Yr hyn sy'n hanfodol yw gwneud defnydd o'ch cymhwysedd meddwl myfyriol eich hun

er mwyn dirnad a deall y cyfarwyddyd moesegol hwn (Gwynne, 2004), proses y mae'r Qur'ān yn ei galw'n *fiqh*, ac i ddatblygu doethineb ymarferol (*hikma*) i'w fynegi'n ddeallus a chyfrifol oddi mewn i realiti cyd-destunol y gymuned ffyddlon. Yn amlwg, mae cymhwysiad o *shariah* yn golygu cadw at werthoedd moesegol uwch, fel cyfiawnder, parchu urddas dynol a chymryd o ddifrif y cyd-destun cymdeithasol y bydd y gwerthoedd hyn yn cael eu cyflawni ynddo.

Yn ôl Islam Sunni, fe arweiniodd y model Proffwydol (*Sunna*) a'r modd y mae'r 'Cymdeithion - *Companions*' yn rhoi cyfrif amdano yn raddol tuag at ymddangosiad o draddodiad byw wedi ei ganoli ar y Qur'ān ac, yn gynyddol, y proffwydol Sunna, gan ei fod yn symboleiddio cymhwysiad ymarferol yr athrawiaethau Qur'ānaidd mewn amgylchiadau bywyd go iawn. Yn raddol, daeth yr awdurdod Proffwydol, a oedd yn wreiddiol wedi ei ymgorffori ar ffurf traddodiad byw, *Sunna*, i gael ei ystyried fel peth testunol, wedi ei gadw yn y casgliad o adroddiadau Proffwydol, *Hadith*. Er gwaethaf y symudiad hwn, dyma'r *awdurdodedig gwybodus a gweithredol* sy'n gonsensws-seiliedig ar y lefel unigol a chymunedol sy'n cynnwys craidd yr awdurdod crefyddol, ac nid corff o gyfarwyddiadau neu honiad o anffaeledigrwydd sy'n perthyn i unigolyn neilltuol. Mewn Islam, fel y cyfryw, mae gan 'ymddygiad cywir - *orthopraxy*', fwy o arwyddocâd nag 'athroniaeth gywir - *orthodoxy*' (van Ess, 2006). Gall awdurdod crefyddol ac ysbrydol yn Islam ymddangos yn ddi-ffurf ond nid ydynt yn ddarostyngedig i ffurfiant mympwyol; maent yn meddu ar gymeriad cadarn, beirniadol, deongliadol a chymunol. Mae gan yr elfen hermeniwtig ('dehongliadol') angenrheidiol hon, sy'n adnabyddus gan y traddodiad fel y prosesau

tafsir/ta'wil/ijtihad, oblygiadau pedagogiaidd ('addysgiadol') pwysig: oherwydd mae proses rhyngweithiol rhwng y cyfarchiad cysegredig â'r gwrandäwr/sylwebydd y bydd ei fyfyrnodau yn gallu dirnad yr arweiniad oddi wrth y neges sydd i'w hefelychu gan aelodau'r gymuned. Ymhellach, erys yr holl broses yn agored i'w harchwilio gan y 'gymuned ffyddlon gytbwys' (*umma Musliima/umma wasat*) ehangach, ac mae felly yn anghyflawn - fel y mae gwybodaeth a doethineb Duw yn ddiderfyn (18:109). Mae'r broses felly angen myfyrdod cyson, a ystyrir i fod yn ddyletswydd yn ogystal â gweithred o addoliad.

Ffurio diwinyddiaethau gwleidyddol yn hanes cynnar Islam

Fe wnaeth yr effaith ddifrodus a'r sioc a ddeilliodd o'r rhyfel cartref cyntaf, *fitnah*, yn hanes Islam (656-661 CE), ar derfyn cyfnod a adnabyddir fel amser y llywodraethwyr a dywyswyd yn gywir (*Khulafa al-Rasheduun*) a thros arweiniad gwleidyddol yr *ummah*, hwyluso i raddau helaeth ffurfiant diwinyddiaeth brif-ffrwd wleidyddol tawelyddwyr i argymell cyfaddawd ac adeiladu cydsyniaeth mewn materion gwleidyddol a chymdeithasol ar ran y gymuned ffyddlon. Felly, mae Mwslimiaid Sunni, sef yn llythrennol yn rhai sy'n glynu wrth y traddodiad proffwydol, yn gymwys ymhellach fel pobl y gymuned (*jama'a*). Fe gynhyrchodd y rhyfel cartref cyntaf nid yn unig argyfwng gwleidyddol llym gyda chanlyniadau sectyddol pellgyrhaeddol, ond hefyd fe ddygodd i fod gyfres o gwestiynau diwinyddol heriol. Er enghraifft, roedd llawer o'r rhai a fu'n rhan o'r rhyfel cartref yn 'Gymdeithion y proffwyd - *Companions of the prophet*', a oedd yn gydradd gyfuwch o ran duwioldeb, ond a ddiwedodd yn

Islam a Democratiaeth: A ydyn nhw'n cydweddu neu'n anghymharus? Rhan 1

cefnogi'r ddwy ochr yn y ddatl farwol. Bu dadlau ffyrnig ar y feirniadaeth ddiwinyddol dros dynged y cyfryw ddynton duwiol yn y byd a ddaw, a oedd wedi bod yn rhan yn o'r weithred, amlwg o annerbyniol, o ladd. Trafodwyd pob math o faterion yn ymwneud â rhyddid dynol, cyfrifoldeb, statws y credadun pechadurus, natur iachawdwriaeth yn Islam ac yn y blaen. Dwysáu a wnaeth y brwydro mewnol rhwng cefnogwyr cefnder y proffwyd Ali ibn Abi Talib (d. 661 CE) fel *Khalif* (ac a ddaeth yn grwpiau 'proto-Shia') a'r rhai fu'n gefnogol i'w wrthwynebwr Muawiyya ibn Abi Sufyan (d.680) C.E), cydymaith adnabyddus y proffwyd, gyda'r naill blaid a'r llall yn amcanu i gyrraedd y llwyfandir moesegol. Awgrymodd y mwyafrif llethol, er mwyn osgoi rhagor o dywallt gwaed, yn syml y dylai'r feirniadaeth ar bob un a fu'n rhan o'r rhyfel cartref gael ei dileu ac y dylai eu tynged yn y byd nesaf gael ei chyfeirio at Dduw i dderbyn ei benderfyniad. Yn y ffordd hon, roedd modd iddynt ddatrys dros-dro y cyfwng diwinyddol ond a ddiwedddodd trwy gyfiawnhau'r model breninlinol o reolaeth grefyddol. Ffurfiodd safbwyntiau diwinyddol y rhai olaf, y sylfaen ar gyfer prif-ffrwd o Islam Sunni.

Pan oedd y rhyfel cartref yn ei hanterth, fe gychwynnodd adran o gefnogwyr Ali holi'r cwestiwn paham yr oedd yn ofynnol cyfyngu'r gystadleuaeth ar gyfer yr arweinydd gwleidyddol i ddim

ond dau ymgeisydd cystadleuol. Fe wnaethon nhw ddechrau cwestiynu cyfreithlondeb y ddau ymgeisydd ac awgrymu bod unigolyn gwahanol yn cael ei ddewis, un oedd yn meddu ar y gwerthoedd arweinyddol cymwys a rhinweddau crefyddol. Fe wnaethon nhw ddechrau troi cefn ar griw Ali (o ganlyniad cawsant eu galw â'r enw *khawarij*, 'y rhai a ymadawodd, a giliodd ymaith - *those who left, went out*') ac yn ddiweddarach fe wnaethon nhw ffurfio'r sect gyntaf yn Islam. Mae'n ymddangos eu bod yn fuan wedi colli'r hyn a ymddangosai fel natur ddemocrataidd, ac yn ei lle wedi datblygu'r ffurf gynharach o grefydduswydd llythrenolwyr yn Islam, a oedd yn arddangos diwinyddiaeth grefyddol anoddefgar, drwy yn syml ddiystyru a chyfreithloni lladd y rhai oedd yn anghytuno â nhw. Yn y diwedd fe'u gyrrwyd ymaith o'r gymuned a chael eu hunain yn byw ar y cyrion ar Benrhyn Arabia, sydd heddiw'n rhan o wlad Oman a rhai parthau o'r Yemen. Mae'r traddodiadau a esblygodd o'r dehongliad cyffredinol *khawarij* hwn o Islam yn parhau i oroesi yn y rhanbarth hwnnw.

Cyhoeddir Rhan 2 o'r erthygl hon, a fydd yn manylu ar y dadleuon o blaid yn ogystal â'r dadleuon yn erbyn yr honiad ei bod yn bosib i Islam gael ei chysoni â democratiaeth fodern seciwlar, yn y rhifyn nesaf (13).

Cysylltau

https://en.wikipedia.org/wiki/First_Fitna

(First Fitna, Wikipedia)

<https://www.britannica.com/topic/Islamic-World#ref26866>

(Islamic World, Encyclopaedia Britannica)

Pwyntiau trafod

1. Yn eich tyb chi, sut mae osgoi effaith negyddol 'lleihadaeth ac anacroniaeth' wrth astudio gwahanol draddodiadau crefyddol?
2. A ydych yn credu bod 'sharia' yn gyfraith grefyddol sefydlog, neu a yw'n bosib ei hail-ddehongli oddi mewn i gyd-destun bywyd modern? Darparwch dystiolaeth dros eich safbwyntiau.
3. A ydych yn credu mai cyfeiryddion ysbrydol yn unig yw proffwydi, neu a yw ei gweinidogaeth hefyd yn ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol a gwleidyddol? Eglurwch eich pwynt trwy ganolbwyntio ar achos y Proffwyd Muhammad.

Cyfeiriadau

- Berger, P.L. (1970). *A rumour of angels: Modern society and the rediscovery of the supernatural*. London: Pelican.
- Copson, A. (2017). *Secularism: Politics, religion and freedom*. Oxford: Oxford University Press.
- van Ess, J. (2006). *The flowering of Muslim theology*. London: Harvard University Press.
- Gwynne, R.W. (2004). *Logic, rhetoric, and legal reasoning in the Qur'ān*. London: Routledge.
- Hallaq, W. (2001). *Authority, continuity and change in Islamic law*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Izutsu, T (2002). *Ethico-religious concepts in the Qur'an*. London, McGill-Queen's Press.
- Stoddard, B. & Martin, C (Eds) (2017). *Stereotyping religion: Critiquing clichés*. London: Bloomsbury.
- Habermas, J. (2008). Secularism's crisis of faith: Notes on post-secular society. *New Perspectives Quarterly*, 25, 17-29.
- Rahman, F. (1980). *Major themes of the Qur'ān*. Chicago: University of Chicago Press.
- Rahman, F. (2002). *Islam* (2nd edition). Chicago: University of Chicago Press.
- Sahin, A. (2011). Islam, secularity and the culture of critical openness: A theological reflection. In *British secularism and religion: Islam, society and the state* (pp. 3-24) Eds. Y. Birt, et al. Markfield: Kube.
- Smith, W.C. (1991). *The meaning and end of religion*. Minneapolis: Fortress.

Mae Dr Abdullah Sahin yn Ddarllenyydd mewn Addysg Islamaidd yn Uned Ymchwil Crefyddol ac Addysgol Warwick, ym Mhrifysgol Warwick. Ef yw awdur New directions in Islamic education: Pedagogy and identity formation (Markfield: Kube Academic, 2014).

Iwtilitariaeth a Moeseg Ddiwinyddol

Samuel Tranter

Mae'r erthygl hon yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng ymagweddau iwtilitariaidd a diwinyddol tuag at foeseg, gan gyflwyno'r darlennydd i rywfaint o ysgolheictod cyfoes ar y cwestiwn hwn a dangos yr hyn a allai fod yn y fantol trwy ganolbwyntio ar dri phwnc moesegol.

Cyswllt manyleb:

WJEC/CBAC/EDUQAS Uned 2: Adran A – Cyflwyno Crefydd a Moeseg, Thema 4: Iwtilitariaeth – ymagwedd heb fod yn grefyddol tuag at foeseg; ac Uned 4 Crefydd a Moeseg, Thema 1: A. Cyswllt synoptig: sut mae astudiaethau moeseg, dros amser, wedi dylanwadu ar ddatblygiadau mewn athroniaeth crefydd ac wedi cael eu dylanwadu arnynt.

OCR Crefydd a Moeseg 2. Damcaniaethau Moesegol Normadol, Iwtilitariaeth. Edexcel Uned 1 Astudiaethau Crefyddol – Sylfaeni, Maes B Moeseg 1 Astudio cysyniadau moesegol.

AQA 1 Athroniaeth Crefydd a Moeseg, Adran B Moeseg a chrefydd.

Cyflwyniad

Mae'r erthygl hon yn canolbwyntio ar y berthynas sydd rhwng ymagweddau iwtilitariaethol a diwinyddol tuag at foeseg, gan gyflwyno rhywfaint o ysgolheictod perthnasol cyfoes a dangos pa gwestiynau all fod yn y fantol trwy ganolbwyntio ar dri thestun moesegol. Rwy'n defnyddio'r ffurf 'moesegau diwinyddol - *theological ethics*' fel talfyriad o 'Moesegau diwinyddol Cristnogol - *Christian theological ethics*', hynny yw, yn gyfystyr â 'Moesegau Cristnogol - *Christian ethics*' a 'diwinyddiaeth foesol - *moral theology*', er ei bod yn bwysig cofio mewn cyd-destunau eraill gall y ffurf

ddynodi traddodiadau eraill yn ogystal, fel mewn 'Moesegau diwinyddol Iddewig - *Jewish theological ethics*'. Wrth drafod iwtilitariaeth, rwy'n golygu'r ddamcaniaeth foesol, neu glwstwr o ddamcaniaethau moesol, sydd â'u gwreiddiau yng ngweithiau meddylwyr fel Jeremy Bentham a John Stuart Mill.

Iwtilitariaeth: i ble ac o ble?

Ysgrifennodd yr Athronydd John Rawls, mai yn achos llawer o athroniaeth foesol fodern, y brif ddamcaniaeth gyfundrefnol fu rhyw ffurf ar iwtilitariaeth' [*for*] '*much of modern moral philosophy the predominant*

Iwtilitariaeth a Moeseg Ddiwinyddol

systematic theory has been some form of utilitarianism' (Rawls, 1971, t. vii). Yn y blynyddoedd diweddar ymddangosodd cenhedlaeth newydd o iwtilitariaid, gan wneud honiadau am oruchafiaeth ac effeithlonrwydd eu damcaniaeth foesol sydd mor uchelgeisiol ag unrhyw rai a ymddangosodd o'u blaen. Yn amlwg ymhlith y ffigurau hyn mae William MacAskill and Toby Ord, athronwyr ifanc sydd wedi eu lleoli yng Nghanolfan Rhydychen, yr *Oxford's Future of Humanity Institute*, ac sydd wedi ceisio poblogeiddio eu gweledigaeth trwy gyhoeddiadau a sefydliadau hygyrch, fel *Giving What We Can* (MacAskill, 2015). Yn ddi-ddorol, ac yn peri cymhlethdod i rai sylwedyddion, mae'r garfan hon o feddylwyr â chysylltiad agos â 'r *Oxford's Future of Humanity Institute*, athrofa sy'n cael ei chyfarwyddo gan yr ôl-ddyneiddiwr Nick Bostrom, ac mae'r ddau wedi bod yn ddylanwadol ar nifer o entrepreneuriaid sydd ynghlwm wrth dechnoleg ddyngarol, fel Dustin Moskovitz, Elon Musk a Bill Gates (ar gyfer adolygiad craff an-niwinyddol o gyfrol MacAskill, gweler, Srinivasan, 2015).

Un a fu'n braenaru'r tir ar gyfer y meddylwyr hyn, ac sydd hefyd wedi bod yn ymwneud â *Giving What We Can*, yw'r meddylwyr iwtilitariaid blaenllaw o'n cyfnod ni: yr athronydd moesol dadleuol o Awstralia, Peter Singer (1946-). Mae ail ran yr erthygl hon yn ymwneud â'i syniadau ef ac, yn neilltuol felly, ei drafodaeth feirniadol ar foesegau diwinyddol. Yn gyntaf, fodd bynnag, mae'n ofynnol i ni archwilio'r darlun ehangach o berthynas iwtilitariaeth â mosegau Cristnogol.

I'r rhai sy'n eiriol drosto, mae iwtilitariaeth yn ffurf hunan-dystiol rhagorach o resymu moesol. Efallai oherwydd hyn, maent yn dueddol i'w

ddisgrifio fel pe byddai'n llamu'n llawndwf o feddyliau gweithredwyr moesol craff. Mae eu diddordebau hwy, unwaith y maent wedi mireinio a ffurfio'u damcaniaeth feta-foesegol, yn tueddu i fod yn ymarferol; enw'r llyfr enwocaf ar iwtilitariaeth gyfoes yw *Practical Ethics* (Singer, 2011). Mewn cymhariaeth, prin iawn yw'r sylw a roddir gan iwtilitariaid i ddimensiwn hanesyddol moesoldeb. Fel unrhyw draddodiad, sut bynnag, trafodaeth sy'n parhau yw honno ar iwtilitariaeth sy'n cynnwys ffynonellau pwysig ac sydd wedi cael eu ffurfio gan benderfyniadau cynharach mewn achosion ymarferol neilltuol. Pan *gaiff* hanes ei grybwyll, olrheinir iwtilitariaeth fel arfer yn ôl at iwtilitariaeth 'glasurol' Bentham a Mill. Y rhagdybiaeth sydd yn mynd law yn llaw'r â'r adroddiad syml hwn yw mai ffurf fwriadol '*an-niwinyddol*' o foeseg fu iwtilitariaeth erioed. O reidrwydd nid yw hyn yn anghywir, ac mae'r ffurfiau modern o iwtilitariaeth yn ddyledus iawn i'r ffigurau hyn, ac i'w consyrn hwy, a'r rhai sy'n eu dilyn moeseg yn osgoi deillio'i chynnwys o grefydd.

Er hynny, nid oedd iwtilitariaeth bob amser yn cael ei ystyried fel ymagwedd anniwinyddol tuag at foesegau. Roedd ei hesbonwyr cynharaf, fel William Paley, yn Gristnogion, a'u hysgrifau yn weithiau ar ddiwinyddiaeth foesol. Am flynyddoedd lawer, roedd gwaith Paley yn fwy adnabyddus na gwaith ei gyfoeswr, Bentham. Gallai hanes athroniaeth foesol fodern y Gorllewin fod wedi dilyn trywydd hollol wahanol pe byddai Mill wedi dilyn canlyniadaeth Paley, yn hytrach nag un Bentham (gweler Perry, 2014, tt. 21-37; Irwin, 2009). Fe *wnaeth* Mill ddilyn Bentham, er hynny, a daeth iwtilitariaeth i ddiffinio ei hun ac i gael ei ddiffinio gan Gristnogion

Iwtilitariaeth a Moeseg Ddiwinyddol

a rhai nad oedd yn Gristnogion fel ei gilydd yn wrth-grefyddol.

Yn ystod blynyddoedd trydydd chwarter olaf yr ugeinfed ganrif, datblygodd nifer o ffyrdd o ymdrin â moesegau a hynny *oddi mewn i* (neu'n honni eu bod yn deillio oddi wrth) ddiwinyddiaeth Gristnogol sy'n ymdebygu i deulu moesegau iwtilitariaidd. Roedd eu perthynas â mathau eraill, an-niwinyddol, o resymeg canlyniadaeth wedi profi'n ddadleuol. Dau o'r mathau mwyaf adnabyddus, o leiaf yn ystod degawdau blaenorol, oedd 'moesegau sefyllfa' a gafodd ei hybu gan Joseph Fletcher, a'r 'cyfranoliaeth' mwy soffistigedig, sydd yn bennaf yn waith moesolwyr Pabyddol. Fel y mae Neil Messer yn ysgrifennu, fodd bynnag, nid yw sefyllfaolaeth Fletcher wedi goroesi'n dda iawn – *'Fletcher's situationism has not worn well'* ac ychydig iawn, os unrhyw un, ymhlith moesegwyr Cristnogol cyfoes sydd yn mabwysiadu ymagwedd y modd sefyllfaol (Messer, 2006, t. 81). Yn yr un modd, cymerwyd penderfyniad ynadol yn *erbyn* cyfranoliaeth fel diwinyddiaeth foisol Gatholig Rufeinig yn y cylchlythyrau Pabyddol *Veritatis Splendor ac Evangelium Vitae* (John Paul II, 1993, 1995).

Fe ddechreuodd yr anghytundebau a ddeilliodd o'r datblygiadau hyn fynegiannau newydd o wrthwynebiad hir-hoedlog Cristnogol yn erbyn sefyllfaolaeth. Yn flaenllaw ymysg y rhain, ac yn ôl yr hyn a ddeallir a gafodd y llaw uchaf yn y ddadl, oedd ysgrifau'r moesegwr Americanaidd Paul Ramsey, a luniodd ddadleuon grymus dros ffurf Gristnogol o foeseg ddeontolegol (e.e. Outka a Ramsey, 1968, tt. 67-138). Yn ddiamheuaeth, mae moesegau Cristnogol bob amser wedi coleddu syniadau o orchmynion a deddfau

moesol absoliwt - syniadau y mae iwtilitariaeth yn eu cwestiynu.

Diffinio'r da

Eto, ymwneud â rhannau eang o'r traddodiad moesol Cristnogol cyn (ac ar ôl) fu'r consyrn gan foesegau sefyllfaol a chyfranolaethol gyda'r *da* yn ogystal â'r *cywir*: braenaru llwyddiant dynol gymaint â, neu yn fwy cyffredinol ynghyd â'r hyn a orchmynnai Duw. Yn wir, er bod diwinyddion Cristnogol wedi deall y Duwdod sy'n gorchymyn pobl i fod yn dda, ac i fod wedi rhoi bodolaeth i greadigaeth sydd yn 'dda iawn', ac wedi gallu sicrhau'r daioni hwnnw yn lesu Grist, nid yw'r ddau bwyslais hyn o reidrwydd yn anghymharus. Felly, y peth newydd am iwtilitariaeth yw nid ei ffocws ar y da fel y cyfryw, nac hyd yn oed roi blaenoriaeth iddo.

Wedi dweud hynny, un o'r gwahaniaethau amlycaf rhwng ffurfiau o ganlyniadaeth fel iwtilitariaeth a moesegu Cristnogol prif-ffrwd yw'r gwahanol werthusiad o'r da. Mae Iwtilitariaeth, yn y ffurf y mae wedi goroesi, yn adeiladu disgrifiad o foesoldeb - ac felly o'r da - sy'n fwriadol annibynnol o ffurfiau diwinyddol perthnasol o gyfeirio. Gan hynny, mae'n dehongli'r meini prawf gyda'r rhain y mae modd i ni gloriannu cymeriad moesol gweithred yn syml yn ôl ffyrdd y byd hwn. Mae'r cysyniadau o 'hapusrwydd' neu 'les' sy'n chwarae rhan ganolog yn ymresymiad moesol iwtilitariaeth yn gysyniadau llawer 'teneuach' na'r syniadau o 'lwyddiant' neu 'wynfyd' mewn moesegau clasurol: boed hynny ar ffurf Aristolaidd, neu'n enwedig fel y caiff hyn ei addasu'n ddiwinyddol gan Sant Thomas Aquinas i gynnwys diwedd trosgynnol neu amcan - *gwynfyd*, bywyd wedi ei gyflawni gyda Duw. Y teneuwch hwnnw, y byddai'r iwtilitariaid yn ei ddatgan, yw'r hyn sy'n denu: mae

Iwtilitariaeth a Moeseg Ddiwinyddol

eu cysyniadau yn ddigon syml i fod yn gyffredin ar draws amser a lleoedd. Gyda'r rhain fel yr unig ystyriaethau yn y rhan o lunio penderfyniadau moesegol, gall moeseg hepgor y materion amherthnasol a difesur o gred ynghylch gwirioneddau y tu hwnt i'r byd hwn a sefydlu rhywbeth o dra-chywired mathemategol. Eto, mae llawer wedi ystyried bod ffiniau cyfyng rhesymu moesol y mae iwtilitariaeth yn ei gynnwys, ac mae cydnabod ei natur gyfyngedig wedi prysuro rhai o adalwadau mwyaf arwyddocaol damcaniaethau moesegol cynnar. Mae'r adalwadau hyn wedi pwysleisio'n arbennig ar y *deleoleg* fetaffisegol fwy a oedd yn ymwneud ag athroniaeth a diwinyddiaeth foesol gynharach. Canmolir yn aml erthygl semenol o eiddo Elizabeth Anscombe am ail-ddeffro athroniaeth foesol y Gorllewin o'i thrwmgwsg Kantiaidd a chanlyniadaethol, ac am ei gwneud yn gyfarwydd drachefn ag athroniaeth foesol glasurol yn ffurf *moesegau rhinwedd - virtue ethics*; roedd llyfr Alasdair MacIntyre hefyd yn meddu â'r un amcan bron (Anscombe, 1981, tt. 26-42; MacIntyre, 2007).

Mae'r gwahaniaeth hwn yn y diffiniad o'r da, ac yn y diffiniad o'r bwriadau a'r nodau priodol i'r hyn y mae'r natur ddynol wedi ei dynghedu, yn dod yn ddybryd pan ystyriwn 'iwtilitariaeth ddewisol - preference utilitarianism' Singer, oherwydd ei fod yn lleihau ffiniau y da i bleser neu'r hapusrwydd o ddewisiadau yn unig, a chodi amheuaeth unrhyw gyfrif o foesoldeb sy'n honni i drafod yn rhesymol am ddaioni amryfal yng ngoleuni'r uchaf ddaioni, fel y mae moesegau Cristnogol clasurol wedi eu gwneud. Yn wir, mae gwaith Singer yn gwadu'n gryf unrhyw sail wrthrychol i foesoldeb o gwbl; yn hytrach yn

awgrymu ei fod, fel yr honnodd Hume, yn ymwneud yn fwy ag anghenion a dyheadau nac am ymresymu o blaid gwerthoedd sy'n gynhenid yn y natur ddynol neu'r byd fel y mae. (Mae Singer, felly, wedi cadw at yr hyn sy'n cael ei ddisgrifio mewn termau technolegol fel safbwynt anwybyddol o ran meta-foesegau.) Yn ddiddorol, fodd bynnag, mae'n ymddangos fel bod Singer ei hun yn dechrau amau a yw dewisiadau mewn gwirionedd yn afresymol, ar ôl iddo gael ei argyhoeddi gan rai o'r dadleuon a berthyn i'r athronydd Derek Parfit (Parfit, 2011). Fe allai drwy hynny ddod i newid ei feddwl am ba un ai a oes mwy nac un gwerth cynhenid - hynny yw, a oes mwy i'w gyfrif amdano'n foesol na chloriannu dewisiadau (gweler Perry, 2014, t. 67). Byddai'r gwelliant hwn, o ddwyn math culach o ganlyniadaeth, yn, dod â Singer yn nes at foesegau Cristnogol. Wedi dweud hynny, byddai gwahaniaethau arwyddocaol yn parhau i fodoli; nid yn lleiaf oherwydd bod Singer yn ystyried ei newid meddwl mewn meta-foesegau i fod yn gydnaws â chynnal yr un safbwynt â'r un y mae wedi ei gadw ato mewn perthynas â moesegau normadol ac ymarferol.

Iwtilitariaeth a moesgau diwinyddol mewn cymhariaeth

Mae anghytundebau rhwng iwtilitariaid a Christnogion cyfoes wedi eu hennyn ynghylch materion pwysig fel ewthanasia, ond gellir cymharu'r ymdriniaeth briodol yn gyfarwyddiadol drwy dalu sylw at y modd y maent yn amlygu eu hunain mewn myfyrdod moesol diriaethol. (Os am weld siart eglur a thrwyadl sy'n arddangos y cytundebau a'r anghytundebau rhwng Cristnogion ac iwtilitariaid fel Singer, gweler Camosy, 2012, tt. 256-60.)

Iwtilitariaeth a Moeseg Ddiwinyddol

Bodau dynol ac anifeiliaid eraill

Bu Singer yn eiriolwr dadleuol dros hawliau anifeiliaid, a thrwy wneud hynny mae wedi cwyno'n barhaus am y diystyrwch y mae Cristnogion wedi ei ddangos tuag at anifeiliaid eraill, gan briodoli'r esgeulustra hwn i athrawiaeth Feiblaidd a atgyfnerthwyd gan ragdybiaethau 'rhywogaethol -*speciesist*' cyffelyb o eiddo Cristnogion diweddarach. Mae'n nodi bod Cristnogion, fel Sant Ffransis o Assisi, a fynegodd ei gonsyrn am anifeiliaid nad oedd yn ddynol, ond fod y bobl hyn wedi bod ymhlith y lleiafrif. Ymhellach, fe wnaethon nhw fetu â ffurfio'r athrawiaeth foesol - ac yn bwysicach, y *gweithrediadau* moesol - gan gymunedau Cristnogol. Mae moesegwyr Cristnogol fel David Clough wedi ymateb trwy gydnabod methiannau mewn arferion Cristnogol tra roedd hefyd yn ceisio dangos bod diwinyddiaeth yn gallu rhoi mynegiant dyfnach ar werth bywyd anifail na'r un gan iwtilitariaid (Perry, 2014, tt. 160-176; hefyd Camosy, 2012, tt. 83-136).

Materion am fywyd a marwolaeth

Mae consyrn Singer bod dysgeidiaeth Gristnogol yn rhywogaethol yn perthyn yn uniongyrchol i'r anghytundeb sydd rhyngddo â dealltwriaeth Gristnogol am foesegau sy'n ymwneud â bywyd a marwolaeth. Dyma'r fan lle mae Singer wedi bod yn fwyaf dadleuol. Mae'n herio'n uniongyrchol yr hyn mae'n ei alw'n 'athroniaeth sancteiddrwydd bywyd - *doctrine of the sanctity of life*', gan awgrymu mai trwy hafalu'r holl fodau dynol â statws 'person', ac felly â'r hawl i fywyd, mae'n gosod bodau llai-ymdeimladol (pobl ag anableddau dwys, pobl ar fin marw, neu sy'n 'ymenyddol farw') yn uwch na bodau mwy-ymdeimladol (h.y. rhai mathau o anifeiliaid) l'r rhai nad yw Cristnogion yn

caniatáu'r cyfryw statws neu hawliau, ac sydd felly'n anfoesol (Singer, 1995). Heb fawr o syndod, mae moesegwyr Cristnogol wedi herio'n uniongyrchol safbwyntiau Singer yn y maes hwn, ac mae llawer wedi cael ei safbwyntiau ar anableddau, ac ewthanasia yn arbennig, yn wirioneddol annymunol (gweler Camosy, 2012, tt. 11-82; Spaemann, 2012).

Ymrwymadau tuag at y tlawd

Dyma destun lle mae safbwyntiau iwtilitariaid fel Singer a moesegwyr Cristnogol yn nes at ei gilydd mewn harmoni. Fel y genhedlaeth iau o iwtilitariaid, mae Singer wedi ceisio hyrwyddo cymorth 'effeithiol', a phwysleisiodd gyfrifoldeb moesol y gwledydd cyfoethocach (gweler Singer, 2009). Mae ef ei hun yn nodi pwyslais radical Beiblaidd a thraddodiadol Cristnogaeth ar y ddyletswydd o rannu cyfoeth sy'n weddill ymysg y tlodion, sydd â'r hawl iddo, ac mae'n nodi nifer o enghreifftiau o ddysgeidiaeth Gristnogol deilwng yn y cyswllt hwn (gweler Perry, 2014, tt. 62-64). Er hynny, yma eto mae'n nodi'r agendor sydd rhwng dysgeidiaeth foesol Gristnogol a gweithredoedd a berthyn i lawer o Gristnogion, yn ogystal â methiant yr eglwys sefydledig i ddisgyblu'r rhai sy'n methu â chynorthwyo'r tlodion, er gwaethaf ei hawch i wneud hynny mewn perthynas â'r aelodau hynny sy'n troseddu yn erbyn ei hathrawiaethau moesol eraill. Mae moesegwyr Cristnogol, o ran eu hunain, unwaith eto wedi cydnabod y ffaeledau sydd ymysg llawer o weithredoedd Cristnogol, ac wedi bod yn chwilio am ffyrdd y gall moesegau Cristnogol â'u hadnoddau ychwanegol i ddirnad ac ymateb i her gymhleth y tlodion tu hwnt l'r rhai hynny a ddarperir gan iwtilitariaeth (Camosy, 2012, tt. 137-177; Perry, 2014, tt. 192-209).

Iwtilitariaeth a Moeseg Ddiwinyddol

Casgliad

Sut mae ymagwedd iwtilitaraidd a diwinyddol tuag at foeseg yn digwydd yn ymarferol yn y DU heddiw? Mae hwn yn gwestiwn mawr, ac mewn ymateb i hyn, fe wnafl gyflwyno un enghraifft: yn unig, sef gwaith Michael Banner, moesegwr Cristnogol sy'n gweithio o Gaergrawnt.

Yn ei gyfrol *Short History of Christian Ethics*, mae Banner yn ailadrodd beirniadaeth eang o'r teulu o ddamcaniaethau moesol y mae materion ynddynt yn ymwneud ag iwtilitariaeth yn ymddangos bod canlyniadaeth yn cynnig sicrwydd ffug; mae ei methiant i gydnabod rhai pryderon yn nodi ei diffyg o sensitifrwydd moesol - *'consequentialism seems to offer false reassurances; its failure to acknowledge certain worries indicates its lack of moral sensitivity'* (Banner, 2009, t. 121). Mae ei waith mwy diweddar, *The Ethics of Everyday Life*, yn dangos sut na all iwtilitariaeth ennill pryntiant ar yr euogfarnau moesol, sydd wedi'u hymgorffori mewn arferion, y mae pobl yn eu hystyried yn annwyl (Banner, 2014). Mewn enghraifft ddwys, mae'n darlunio'r modd y mae ansensitifrwydd iwtilitaraidd wedi gwaethygu trychineb sgandal organau Alder Hey oherwydd na allai moesegwyr meddygol proffesiynol ddeall galar rhieni, yn methu â gwrando ar eu pryderon, ac yn eu hanwybyddu fel a'u diswyddo fel bod yn ofergoelus. Denodd y sgandal hwn y fath bryder, fel yn 1999, sefydlwyd Ymchwiliad Seneddol i ymchwilio i achosion o dynnu, cadw, a gwaredu organau a meinweoedd yn dilyn archwiliadau post-mortem *'a Parliamentary Inquiry was instituted to investigate the removal, retention, and disposal of organs and tissues following post-mortem examination'* (Banner, 2014, t. 155). Hyd yn oed tra bod llygaid y genedl a'r senedd ar Alder Hey, ac er eu

bod yn gwneud y trefniadau mwyaf parchus y gallen eu gwneud gyda rhieni ar gyfer delio â'r meinwe a gadwyd, roedd yr ysbyty yn cadw samplau o'r organau hyn yn ôl heb roi gwybod neu heb geisio caniatâd y rhieni. Nid yw Banner yn adrodd am hyn fel dameg am feddygon drygionus. Yn hytrach, mae'n gweithredu er mwyn datgelu cyflwr o ddryswch moesol. Hyd yn oed o dan archwiliad cenedlaethol, nid oedd ymchwilwyr meddygol yn gallu deall yn ddigonol pam fod rhieni'n anfodlon â thynnu organau eu plant ar ôl marwolaeth y plentyn. Nid oeddent ar eu pen eu hunain yn eu dryswch, ymunodd Llywydd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant a'r biofoesegwr amlwg, John Harris, â hwy. Fe ddisgrifiodd y cyntaf hyn fel pos athronyddol - *'a philosophical puzzle'* a bod rhieni'n drallodus gyda'r hyn a ystyrir fel gwaredu'r corff dynol cyfan neu ran ohono yn amhriodol er gwaethaf y ddealltwriaeth wyddonol fwy nag erioed o natur bywyd dynol a bioleg y corff dynol - *'a philosophical puzzle' that parents were distressed at 'what is perceived as inappropriate disposal of the whole human body or part of it' despite the greater-than-ever scientific understanding of the 'nature of human life and the biology of the human body'* (dyfynwyd yn Banner, 2014, t. 156). Yn yr un modd, fe ysgrifennodd Harris fod y brwdfrydedd ynghylch ystyriaeth a pharch at feinwe gorfforol, sydd wedi dod i ddominyddu trafodaethau ynghylch meinweoedd ac organau a gedwir yn sgil y dadleuon Alder Hey yn eithaf hurt, os yw'n ddealladwy - *"preoccupation with reverence and respect for bodily tissue," which "has come to dominate discussions of retained tissues and organs in the wake of the Alder Hey revelations" is "quite absurd, if understandable"* (t. 157). Eto i gyd, mae

Iwtilitariaeth a Moeseg Ddiwinyddol

pryderon y rhieni, dadleua Banner, yn rhesymol amddiffynadwy ac yn ddiwinyddol ddealladwy. Mae arsylwi ar arferion Cristnogol, mae'n awgrymu, yn ein helpu i weld sut mae'r corff materol yn chwarae rhan bwysig mewn galaru.

Beth bynnag fo'i addewid o drylwyredd moesol dadansoddol, ymddengys bod yr arferion hyn yn ymgorffori safiadau moesegol a gafodd eu cuddio gan iwtilitariaeth.

Geirfa

Canlyniadaeth (Consequentialism) - damcaniaeth foesegol sy'n barnu a yw rhywbeth yn anghywir ai peidio oddi wrth ei ganlyniadau.

Moeseg ddeontolegol (Deontological ethics) - gosod y pwyslais mewn moesoldeb ar ddyletswydd a rhwymedigaeth. Mae'n barnu a yw rhywbeth yn gywir neu'n anghywir yn seiliedig ar reolau.

Achyddol (Genealogical) - yn ymwneud ag adroddiad ar darddiad a datblygiad hanesyddol rhywbeth.

Ynadol (Magisterial) - pan gaiff ei ddefnyddio mewn perthynas â Chatholigiaeth Rufeinig, mae'n golygu gan 'swyddfa addysgu' yr eglwys, hynny yw gan awdurdodau eglwysig.

Damcaniaeth feta-foesegol (Meta-ethical theory) - nid yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r hyn y dylem ei wneud neu beidio, ond ynghylch sut y dylem feddwl am yr hyn y dylem ei wneud neu beidio. Mathau o ddamcaniaeth feta-foesegol yw deontoleg neu ddamcaniaethau canlyniadol.

Anwybyddiaeth (Non-cognitivism) yw'r farn feta-foesegol nad yw datganiadau moesegol yn gallu bod yn wrthrychol wir.

Cylchlythyr y Pab (Papal encyclicals) - dogfennau a gyhoeddwyd gan Babau, sy'n mynd i'r afael â materion penodol y deallir eu bod yn faterion pwysig y dydd.

Ôl-ddyneiddiaeth (Post-humanism) neu (Trosddyneiddiaeth) transhumanism - ideoleg a mudiad sy'n ceisio datblygu technolegau sy'n dileu heneiddio ac yn gwella galluoedd dynol yn sylweddol, er mwyn cyflawni 'dyfodol ôl-ddynol' - 'posthuman future'.

Dibenyddiaeth (Teleology) - esboniad athronyddol neu ddiwinyddol o fwriad, nod neu bwrpas ffenomenau. Gall hefyd gyfeirio at y diben hwnnw ei hun.ed in relation to Roman Catholicism, means promoted by the 'teaching office' of the church, i.e. by church authorities.

Iwtilitariaeth a Moeseg Ddiwinyddol

Cysylltau

http://w2.vatican.va/content/john-paul-ii/en/encyclicals/documents/hf_jp-ii_enc_06081993_veritatis-splendor.html (Pope John Paul II, 1993)

http://w2.vatican.va/content/john-paul-ii/en/encyclicals/documents/hf_jp-ii_enc_25031995_evangelium-vitae.html (Paul John Paul II, 1995)

<https://www.lrb.co.uk/v37/n18/amia-srinivasan/stop-the-robot-apocalypse> (Amia Srinivasan, 2015)

<http://www.standpointmag.co.uk/node/3990/full> Peter Singer and Nigel Biggar in conversation, 2011)

<https://www.utilitarianism.com/hibberd/index.html> (Paul Hibberd, 'To what extent is utilitarianism compatible with Christian theology?')

http://98.131.162.170//tynbul/library/TynBull_1991_42_2_03_Cole_Utilitarianism.pdf (Graham Cole, 1991, 'Theological utilitarianism and the eclipse of the theistic sanction')

Pwyntiau trafod

1. Ydych chi'n meddwl bod ymagweddau iwtilitariaidd a diwinyddol o ymdrin â moeseg yn anghymharus? Os felly, pam? Os na, pam?
2. Pa bynciau moesegol eraill y gallai ymagweddau iwtilitariaidd a diwinyddol tuag at foeseg anghytuno yn eu cylch, a pham?
3. Pa bynciau moesegol eraill y gallen nhw gytuno yn eu cylch, a pham?

Cyfeiriadaeth a darllen pellach

- Anscombe, G.E. (1981). *Collected philosophical papers, Vol. III: Ethics, religion and politics*. Minneapolis, Minnesota: University of Minnesota Press.
- Banner, M. (2009). *Christian ethics: A brief history*. Chichester: Wiley-Blackwell.
- Banner, M. (2014). *The ethics of everyday life: Social anthropology, moral theology, social anthropology, and the imagination of the human*. Oxford: Oxford University Press.
- Camosy, C. (2012). *Peter Singer and Christian ethics: Beyond polarization*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Irwin, T. (2009). *The development of ethics: Volume 3: From Kant to Rawls*. Oxford: Oxford University Press.
- MacAskill, W. (2015). *Doing good better: Effective altruism and a radical new way to make a difference*. London: Guardian Faber.
- MacIntyre, A. (2007, 3rd ed.). *After virtue: A study in moral theory*. Notre Dame, Indiana: University of Notre Dame Press.
- Meilaender, G. (1986). *Eritis Sicut Deus: Moral Theory and the Sin of Pride*. *Faith and Philosophy*, 3, 397-415.
- Messer, N. (2006). *SCM Studyguide to Christian ethics*. London: SCM Press.
- Outka, G., & P. Ramsey, P. (Eds) (1968). *Norm and context in Christian Ethics*. New York: Charles Scribner's Sons.
- Parfit, D. (2011). *On what matters*. Oxford: Clarendon Press.
- Paul II, John. (1993). *Veritatis splendor*. Paul II, John. (1995). *Evangelium vitae*.
- Perry, J. (Ed.) (2014). *God, the good, and utilitarianism: Perspectives on Peter Singer*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Porter, J. (1995). Christianity, divine law and consequentialism. *Scottish Journal of Theology*, 48, 415-442.
- Rawls, J. (1971). *A theory of justice*. Cambridge, Massachusetts: Harvard University Press.
- Singer, P. (1995). *Rethinking life and death: The collapse of our traditional ethics*. Oxford: Oxford University Press.
- Singer, P. (2009). *The life you can save*. New York: Random House.
- Singer, P. (1993, 2011). *Practical ethics*. Cambridge: Cambridge University Press.

Iwtilitariaeth a Moeseg Ddiwinyddol

Smart, J.J.C., & Williams, B. (1973). *Utilitarianism: For and against*. Cambridge: Cambridge University Press.

Spaemann, R. (2012). *Love and the dignity of life: On nature and natural law*. Grand Rapids, Michigan: Eerdmans.

Srinivasan, A. (2015). Stop the robot apocalypse. *London Review of Books*, 37, 3-6.

Mae Samuel Tranter yn cwblhau PhD mewn diwinyddiaeth a moeseg ym Mhrifysgol Durham ac mae'n diwtor cyswllt ar gyfer Partneriaeth Hyfforddiant Ranbarthol Lindisfarne. Mae wedi cyhoeddi a chyflwyno papurau ar amrywiol bynciau, ac ar hyn o bryd mae'n gweithio ar destun rhagarweiniol ar gyfer SCM Press, o'r enw Everyday Ethics.